# YMGYNGHORIAD STATUDOL

## CYNNIG Y DDARPARIAETH ADDYSG GATHOLIG

- Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney erbyn 31 Awst 2027.
- Uno Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint.
- Byddai’r uno’n golygu:
  - y byddai’r ysgolion unigol yn cau erbyn 31 Awst 2027,
  - y byddai ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir 3-18 oed cyfrwng Saesneg newydd gydag enw a rhif ysgol newydd, yn agor ar 1 Medi 2027,
  - y byddai’r ysgol newydd yn gweithredu dros y tri safle presennol nes bydd adeilad ysgol newydd yn cael ei adeiladu (rhagwelir Medi 2030).

**Gwanwyn - Haf 2026**

# CYNNWYS


**RHAN A. TROSOLWG** .... **4**
A.1. Cyflwyniad .... 4
A.2. Trosolwg o'r Cynnig .... 4
A.3. Gofynion Ymgynghori .... 5
A.4. Gyda phwy fyddwn yn ymgynghori? .... 6
A.5. Sut i ymateb i'r ymgynghoriad .... 9
A.6. Manylion cyswllt .... 10
A.7. Beth fydd yn digwydd nesaf? .... 10
**RHAN B. YR ACHOS DROS NEWID** .... **12**
B.1. Rhesymau dros newid .... 12
B.2. Cefndir y Cynnig .... 12
B.3. Sut cyrhaeddom ni yma? .... 13
B.4. Ymgynghori gydag Ymddiriedolwyr .... 14
**RHAN C. DARPARIAETH BRESENNOL** .... **15**
C.1. Trosolwg .... 15
C.2. Lleoliadau .... 15
C.3. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Saltney .... 17
C.4. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant, Yr Wyddgrug .... 18
C.5. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair, Y Fflint .... 19
C.6. Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Sant Richard Gwyn, y Fflint .... 20
C.7. Gwybodaeth Ddemograffig .... 21
C.8. Rhagolygon Disgyblion .... 25
C.9. Ansawdd y Ddarpariaeth Addysg .... 29
**RHAN D. Y CYNNIG** .... **34**
D.1. Y Sefyllfa Bresennol .... 34
D.2. Beth sy'n cael ei gynnig? .... 34
D.3. Beth fydd y cynnig yn ei ddarparu? .... 35
D.4. Pa bryd gaiff y cynnig ei roi ar waith? .... 37
D.5. Cost y Cynnig .... 38
D.6. Opsiynau a Ystyriwyd .... 42
D.7. Beth fydd y cynnig a ffafrir yn ei gyflawni? .... 47
D.8. Risgiau Cysylltiedig .... 48
**RHAN E. EFFAITH DEBYGOL Y CYNNIG** .... **50**
E.1. Asesiadau o Effaith .... 50
E.2. Trefniadau yn y Cyfamser .... 53
E.3. Derbyniadau .... 53

E.4. Llywodraethu ..... 53
E.5. Staff ..... 54
E.6. Rhagolwg ..... 54
E.7. Disgyblion o Gefndiroedd Economaidd Difreintiedig ..... 56
E.8. Trefniadau Pontio ..... 57
E.9. Darpariaeth Feithrin a’r Blynyddoedd Cynnar ..... 57
E.10. Darpariaeth Chweched Dosbarth ..... 58
E.11. Yr Amgylchedd Lleol ..... 58
E.12. Asesiad Teithio Dysgwyr – Llwybrau Cerdded y Fflint ..... 59
E.13. Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol ..... 60
E.14. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) ..... 61
E.15. Tir ac Adeiladau ..... 61
E.16. Ysgolion Eraill ..... 62

# RHAN A. TROSOLWG

## A.1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn rhoi gwybodaeth ar gynnig sy'n cael ei hystyried gan Gyngor Sir y Fflint ("*y Cyngor*") i ad-drefnu Darpariaeth Addysg Gatholig yn Sir y Fflint.  Y bwriad ydi galluogi budd-ddeiliaid a phartïon eraill sydd â diddordeb i ddeall y cynnig, a lleisio eu barn cyn y gwneir unrhyw benderfyniad.

Mae gan y Cyngor gyfrifoldebau statudol dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("*y Ddeddf*") i ystyried cynigion i ad-drefnu ysgol pan fo hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau darpariaeth addysg effeithlon ac effeithiol. Yn unol â gofynion trydydd rhifyn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026) ("*y Cod*"), mae'r Cyngor yn ymgymryd â'r ymgynghoriad statudol hwn cyn pennu a ddylai symud ymlaen â'r cynnig.

Byddai'r cynnig sy'n cael ei ystyried yn cynnwys cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir St Anthony yn Saltney, a fyddai'n rhoi'r gorau i weithredu.  Hefyd, bydd Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Sant Richard Gwyn yn y Fflint, yn cael eu huno i sefydlu ysgol Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir 3-18 oed cyfrwng Saesneg newydd yn y Fflint.  Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, a'r prosesau statudol dilynol, byddai'r ysgol newydd yn gweithredu ar y tri safle presennol i ddechrau, pan fo cynigion i adeiladu ysgol newydd yn mynd rhagddynt.

Nid oes penderfyniad wedi cael ei wneud ar y cam hwn. Nid yw'r Cyngor wedi gwneud penderfyniad am ganlyniad y broses eto, a bydd yr holl farn a fynegir yn ystod yr ymgynghoriad yn cael ei hystyried yn ofalus, cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno cefndir y cynnig, y dewisiadau a ystyrir, a'r effeithiau posib ar ddysgwyr, staff a'r gymuned ehangach, er mwyn cefnogi cyfranogiad gwybodus yn ystod y broses ymgynghori.

Y ffigyrau, yr ystadegau a'r deunydd y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yw'r rhai mwyaf cywir sydd ar gael adeg ei pharatoi a'i chyhoeddi.

## A.2. Trosolwg o'r Cynnig

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar gynnig i Ad-drefnu'r Ddarpariaeth Addysg Gatholig yn Sir y Fflint.

Mae'r cynnig yn ffurfio rhan o ymagwedd strategol ar gyfer addysg Gatholig yn Sir y Fflint dan arweiniad Esgobaeth Gatholig Wrecsam (*"yr Esgobaeth"*).  Dan arweiniad yr Esgobaeth mewn partneriaeth gyda'r Cyngor, mae'n ymateb i ystod o heriau sylweddol sy'n effeithio ar y sector Catholig yn lleol.

Nod y strategaeth yw darparu cyfeiriad hirdymor clir a chynnig addysg Gatholig sy'n gynaliadwy, cadarn ac o ansawdd uchel ar gyfer plant a theuluoedd Sir y Fflint, yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r cynnig hwn yn canolbwyntio ar:

- Leihau nifer y lleoedd gwag sy'n gwyro adnoddau oddi wrth y ddarpariaeth rheng flaen ar gyfer y disgyblion.
- Gwella amgylchedd dysgu mewn rhai ysgolion.
- Atgyfnerthu trefniadau arweinyddiaeth ysgolion er mwyn i bob disgybl elwa o gynnig addysgol ansawdd uchel.
- Darparu cynnig cwricwlwm llawn ar gyfer plant 3-18 oed.
- Datblygu addysg Gymraeg o fewn cyd-destun Catholig ymhellach.

- Gwneud y mwyaf o’r buddsoddiad ariannol sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru drwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

Mae’r cynnig a ddatblygwyd gan yr Esgobaeth yn rhoi cyfle i’r Cyngor adolygu’r ddarpariaeth addysg Gatholig yn Sir y Fflint. Cyflwynodd yr Esgobaeth eu cynnig i’r Cyngor a gofyn am gefnogaeth i weinyddu’r broses ymgynghori.

Mae’r Cyngor yn cynnig:

- Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney erbyn 31 Awst 2027.
- Uno Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint.
- Byddai’r uno’n golygu:
  - y byddai’r ysgolion unigol yn cau erbyn 31 Awst 2027
  - y byddai ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir 3-18 oed cyfrwng Saesneg newydd gydag enw a rhif ysgol newydd, yn agor ar 1 Medi 2027
  - y byddai’r ysgol newydd yn gweithredu dros y tri safle presennol nes bydd adeilad ysgol newydd yn cael ei adeiladu (rhagwelir Medi 2030).

Pe byddai’r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol. Yn ôl yr astudiaeth ddichonolrwydd a gynhaliwyd yn 2024, byddai cost adeiladu ysgol 3-18 oed newydd oddeutu £55 miliwn. Fodd bynnag, dylid nodi mai canllaw yn unig yw’r ffigwr hwn ac y gall newid wrth i’r cam dylunio fynd rhagddo. Ers cwblhau’r gwaith dichonoldeb, mae’r chwyddiant yn y sector adeiladu wedi parhau i gynyddu, fel y disgwyliwyd, a bydd angen model costau wedi’i ddiweddaru i adlewyrchu cyflwr presennol y farchnad.

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn ochr yn ochr ag ymgynghoriad ar wahân yn ymwneud â’r posibilrwydd o gau Ysgol Gynradd Gymunedol Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood, yn Saltney, a sefydlu ysgol gynradd gymunedol newydd yn Saltney. Ystyrir pob cynnig yn ôl ei rinweddau ei hun.

## A.3. Gofynion Ymgynghori

Mae’r ddogfen hon yn fodd i Gyngor Sir y Fflint gyflawni ei gyfrifoldebau dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i ymgynghori â budd-ddeiliaid perthnasol wrth ystyried unrhyw ad-drefnu arwyddocaol mewn ysgol.

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2026 yn disgrifio nifer o addasiadau mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, sy’n destun rheoleiddio, a rhaid peidio â’u cyflawni heb fod yr awdurdod lleol perthnasol a/neu’r corff llywodraethu wedi cyflawni gofynion y Cod.

Mae angen dilyn gweithdrefnau statudol fel arfer er mwyn gwneud newidiadau sylweddol mewn ysgolion. Lluniwyd y gweithdrefnau fel bod modd gwneud newidiadau os bernir eu bod yn angenrheidiol, ond mewn ffordd sy’n diogelu buddiannau dysgwyr ac sy’n galluogi pobl â diddordeb i gael cyfle i leisio’u barn.

Bydd y broses ymgynghori ffurfiol yn para o leiaf 42 diwrnod, gydag o leiaf 20 o’r rheiny’n ddiwrnodau ysgol. Bydd cyfleoedd i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a gaiff eu hystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu gweithredu’r cynnig neu beidio.

Yn unol â’r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru, ac Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn, mae’r Cyngor yn cydnabod bod gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael gwybodaeth, i leisio eu barn ar faterion sy’n eu heffeithio, ac i’r safbwyntiau hynny gael eu hystyried yn briodol.

Er mwyn cefnogi cyfranogiad ystyrlon, bydd y Cyngor yn ymgysylltu gyda disgyblion yr ysgolion yn ystod y cyfnod ymgynghori. Bydd yr ymgysylltiad yn addas o ran oedran, ac yn gynhwysol, gan ystyried anghenion cyfathrebu gwahanol y disgyblion, yn ogystal â'u lefel dealltwriaeth. Bydd gweithgareddau'n cynnwys trafodaethau a hwylusir, ac ymarferion adborth â strwythur, a gefnogir gan yr ysgol a staff y cyngor.

Mae fersiwn sy'n addas i'r disgyblion o'r ddogfen ymgynghori hon wedi cael ei llunio er mwyn esbonio'r cynnig mewn iaith hygyrch, ac i helpu'r disgyblion i ffurfio barn wybodus. Bydd cyfleoedd yn cael eu cynnig i ddisgyblion leisio eu barn drwy sylwadau ysgrifenedig, neu drafodaethau a hwylusir, fel y bo'n briodol i'w hoedran, a cham eu datblygiad.

Bydd sylwadau'r plant a'r bobl ifanc yn cael eu cofnodi a'u crynhoi o fewn Adroddiad Ymgynghori a gyflwynir i'r Cabinet. Er nad oes gofyn i'r disgyblion wneud penderfyniadau, bydd ystyriaeth ddyledus yn cael ei rhoi i'w barn, ynghyd ag ymatebion eraill i'r ymgynghoriad pan mae'r Cyngor yn ystyried a ddylid parhau i gam nesaf y broses statudol.

Cyhoeddir y ddogfen hon ar wefan y Cyngor ac ar ffurf copi caled. Bydd copi caled o'r ddogfen ac unrhyw ddogfennau ategol ar gael ar gais drwy'r manylion cyswllt isod.

## A.4. Gyda phwy fyddwn yn ymgynghori?

Mae'n rhaid cynnal yr ymgynghoriad am o leiaf 42 o ddiwrnodau ac mae'n rhaid i o leiaf 20 o'r rheiny fod yn ddiwrnodau ysgol.

Bydd y cyfnod ymgynghori yn agor **ddydd Mawrth 16 Mehefin 2026** ac yn dod i ben am 11.59pm **ddydd Mercher 29 Gorffennaf 2026.** Bydd hyn yn caniatáu o leiaf 42 diwrnod i dderbyn ymatebion, ac mae o leiaf 20 o'r rhain yn ddyddiau ysgol.

Anfonwyd y ddogfen ymgynghori hon at amrywiaeth helaeth o ymgyngoreion, gan gynnwys:

| **Ymgyngoreion** | **Yn derbyn y ddogfen/ trwy:** |
|---|---|
| rhieni (a darpar rieni lle bo modd), gofalwyr a gwarcheidwaid y dysgwyr sy'n mynychu'r ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigiwr yn ystyried y byddent yn cael eu heffeithio gan y cynigion; | Drwy'r ysgolion:<br>Sant Anthony; Dewi Sant; y Santes Fair; Sant Richard Gwyn.<br>Santes Gwenffrewi; Hybarch Edward Morgan. |
| yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae'r dysgwyr fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ysgol uwchradd honno; | Drwy'r ysgolion:<br>Sant Anthony; Dewi Sant; y Santes Fair; Sant Richard Gwyn.<br>Santes Gwenffrewi; Hybarch Edward Morgan. |
| aelodau o staff yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigiwr yn credu y gallai'r cynigion effeithio arni; | Drwy'r ysgolion:<br>Sant Anthony; Dewi Sant; y Santes Fair; Sant Richard Gwyn.<br>Santes Gwenffrewi; Hybarch Edward Morgan. |
| yr awdurdod cynnal neu'r awdurdod cynnal arfaethedig ar gyfer yr ysgolion sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigiwr yn credu y byddai'r cynigion yn effeithio arnynt (gan gynnwys timau cludiant a phriffyrdd); | Cyngor Sir y Fflint |

| Ymgyngoreion | Yn derbyn y ddogfen/ trwy: |
|---|---|
| unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys rhai yn Lloegr, lle bo hynny'n briodol) y mae'r cynigiwr yn credu bod y cynigion yn debyg o effeithio arnynt gan gynnwys, yn achos DDdY penodol, unrhyw awdurdod sy'n lleoli disgyblion gydag ADY yn yr ysgol sy'n destun y cynigion; | Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal ble mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgolion eraill y mae'r cynigiwr yn credu y gallai'r cynigion effeithio arnynt; | Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Llanelwy<br>Esgobaeth Gatholig Wrecsam |
| unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigiwr yn credu y gallai'r cynigion effeithio arni; | Amherthnasol |
| corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac unrhyw ysgol arall y mae'r cynigiwr yn credu y gallai'r cynigion effeithio arni; | **Corff Llywodraethu**<br>Sant Anthony; Dewi Sant; y Santes Fair; Sant Richard Gwyn.<br>Santes Gwenffrewi; Hybarch Edward Morgan; St Clare's, Ysgol Uwchradd Gatholig Caer. |
| Gweinidogion Cymru; | |
| Aelodau o'r Senedd (AS) ac Aelodau Seneddol (AoS) sy'n cynrychioli'r ardal y mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion yn ei gwasanaethu neu y bwriedir iddi wneud; | **Aelodau o'r Senedd (AS)**<br>Cristiana Emsley; Carrie Harper; Marc Jones; Sam Rowlands; Ken Skates; Nigel Williams; Louise Emery; Llyr Gruffydd; Becca Martin; Adrian Mason; Darren Millar; Tom Montgomery<br>**Aelodau Seneddol (AoS)**<br>Sir Mark Tami; Becky Gittins; Aphra Brandreth |
| Estyn; | Prif Arolygydd ei Fawrhydi dros<br>Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| undebau athrawon ac undebau llafur staff sy'n cynrychioli'r athrawon ac aelodau eraill o staff mewn unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion; | Cynrychiolwyr NASUWT; NEU; UCAC; ASCL;<br>UNSAIN |
| y gwasanaethau gwella ysgolion perthnasol; | WLGA |
| Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer yr ardal y mae unrhyw ysgol sy'n destun y | Comisiynydd yr Heddlu ar gyfer Gogledd Cymru |

| Ymgyngoreion | Yn derbyn y ddogfen/ trwy: |
|---|---|
| cynigion yn ei gwasanaethu neu y bwriedir iddi wneud; | |
| unrhyw gyngor tref neu gymuned ar gyfer yr ardal y mae unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion yn ei gwasanaethu neu y bwriedir iddi wneud; | Cyngor Tref Saltney<br>Cyngor Tref yr Wyddgrug<br>Cyngor Tref y Fflint |
| yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a / neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant os ydynt yn bodoli; | Busy Bees Playgroup; Cornist Park Primary School; Halcyon Meadow Nursery; Little Rascals; Sara's Little Explorers; Shelly Lacurti; The Oaks Day Nursery; Bryn Coch Club; Bryn Gwalia Fun Club; Buckley Girls Gymnastics Club; Buttercups Day Nursery; Cheeky Rascalz; Cilcain Toddler and Parent Group; Elizabeth's Family Childminding; Halkyn Mountain Kid's Club; Little Angels; Little Scholars Nursery; Rise and Shine Day Nursery; St David's Playgroup; Sunbeams Play Group; Sunray Day Care; The Play Corner; Playhouse Childminding; Ysgol Y Foel Club; Clwb Hapus; Saltney Methodist Church; Woody Wrap Around |
| Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yr awdurdod lleol, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol sy'n debygol o gael eu heffeithio a'r sefydliadau ymbarél cenedlaethol sy'n eu cefnogi, Mudiad Meithrin, NDNA Cymru, Clybiau Plant Cymru, Blynyddoedd Cynnar Cymru, PACEY Cymru a Chwarae Cymru; | Cyngor Sir y Fflint; Mudiad Meithrin; Early Years Wales; National Day Nursery Association Cymru; PACEY Wales; Menter Iaith |
| yn achos cynigion sy'n effeithio ar Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY), unrhyw gorff iechyd neu drydydd sector perthnasol y mae'r cynigiwr yn credu bod ganddynt fuddiant; | SNAP Cymru<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgolion sy'n destun y cynigion; | Coleg Cambria |
| yn achos cynigion sy'n effeithio ar chweched dosbarth ysgolion, Medr; ac | Medr: Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil |
| yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth iaith Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg a Mentrau Iaith | Comisiynydd y Gymraeg<br>Mentrau Iaith |

| Ymgyngoreion | Yn derbyn y ddogfen/ trwy: |
|---|---|
| yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg a Mentrau Iaith. | Holl Gynghorwyr Cyngor Sir y Fflint |

Cyhoeddwyd y ddogfen hon ar wefan Cyngor Sir y Fflint ac fe'i gwelir drwy ddilyn y ddolen isod:

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Catholic-Education-Proposal.aspx

## A.5. Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

Mae eich barn ar y cynigion i ad-drefnu'r Ddarpariaeth Addysg Gatholig yn Sir y Fflint yn bwysig i ni.   Mae ar y Cyngor eisiau i chi gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn a dweud wrthym ni beth ydych chi'n feddwl o'r cynnig, yn enwedig os gallai effeithio arnoch chi neu'ch plant.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod y broses ymgynghori yn deg, yn agored ac yn gynhwysol. Bydd yr holl ymatebion a dderbynnir o fewn cyfnod ymgynghori yn cael ystyriaeth gyfartal a byddant yn cael eu dadansoddi'n wrthrychol. Bydd y sylwadau a fynegir yn ystod yr ymgynghoriad yn hysbysu'r Adroddiad Ymgynghori a fydd yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.

Mae'r Cyngor yn awr yn cynnal prosesau ymgynghori statudol â'r holl fudd-ddeiliaid i sicrhau bod y Cyngor yn penderfynu ar sail yr holl wybodaeth berthnasol.

Dyma amserlen yr ymgynghoriad ffurfiol ynghylch y cynigion statudol:

| Dechrau'r Cyfnod Ymgynghori Statudol | Diwedd y Cyfnod Ymgynghori Statudol | Cyfnod Ymgynghori |
|---|---|---|
| Dydd Mawrth, 16 Mehefin 2026 | 11.59pm ddydd Mercher 29 Gorffennaf 2026 | O leiaf 42 diwrnod ( y mae o leiaf 20 ohonynt yn ddiwrnodau ysgol) |

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, gall pobl gyflwyno sylwadau, gofyn cwestiwn neu awgrymu dewis amgen i'r cynnig drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.  Mae'n rhaid derbyn yr holl ohebiaeth cyn diwedd y cyfnod ymgynghori.

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad trwy lenwi'r holiadur ar-lein sydd ar gael ar wefan y Cyngor neu drwy ddilyn y ddolen hon:

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Catholic-Education-Proposal.aspx

Mae copi papur o'r holiadur hefyd yng nghefn y ddogfen hon.  Fel arall, gallwch ymateb yn ysgrifenedig drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Gellir gofyn am fersiynau o'r ddogfen ar ffurf print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwch yn cael ymateb yn yr un iaith.  Ni fydd y defnydd o'r naill iaith yn arwain at oedi.

Er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn, lluniwyd fersiwn o'r ddogfen sy'n addas i'w hoedran a lefel debygol eu dealltwriaeth. Mae'n cyflwyno'r wybodaeth mewn ffordd gyfeillgar sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ddod i benderfyniad gwybodus.

**Mae'n rhaid derbyn yr holl ymatebion erbyn 11.59pm ddydd Mercher, 29 Gorffennaf 2026.**

Nid yw'r Cyngor yn bwriadu cynnal unrhyw ddigwyddiadau galw heibio i'r cyhoedd yn ystod yr ymgynghoriad hwn. Yn hytrach, gellir cyflwyno cwestiynau dros e-bost (gweler y Manylion Cyswllt isod). Bydd Swyddogion y Cyngor yn ceisio ymateb o fewn 7 diwrnod gwaith os yw'r cwestiynau'n ymwneud â'r broses.

Trefnwyd digwyddiadau ar gyfer staff a llywodraethwyr gyda'r ysgolion unigol.

## A.6. Manylion cyswllt

Dylid anfon bob ymateb i'r cyfeiriad canlynol:

Tîm Moderneiddio Ysgolion, Cyngor Sir y Fflint, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, CH5 3XT

E-bost: catholiceducationconsultation@flintshire.gov.uk

Rhif ffôn: 01352 704014 neu 01352 704018

Bydd blwch post ar gael yn nerbynfeydd y chwe Ysgol Gatholig yn Sir y Fflint er mwyn gallu cyflwyno ymatebion ar bapur. Bydd y blychau post yn eu lle tan ddiwrnod olaf y tymor.

## A.7. Beth fydd yn digwydd nesaf?

Yn dilyn diwedd y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei baratoi yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd, ac ystyriaeth y Cyngor o'r materion a godwyd. Ni fydd yr adroddiad yn gwneud unrhyw dybiaethau am ganlyniad yr ymgynghoriad. Gall ymgyngoreion gofrestru eu dymuniad i gael gwybod am gyhoeddi'r adroddiad ymgynghori, naill ai drwy'r ffurflen ymateb neu drwy ysgrifennu at y Cyngor drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarparwyd.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr Adroddiad Ymgynghori ac yn penderfynu a yw'n dymuno symud ymlaen i'r cam statudol nesaf. Nid yw'r ymatebion a gyflwynir yn ystod y cyfnod ymgynghori'n cynrychioli gwrthwynebiad ffurfiol o dan y Cod. Mae'n rhaid i chi aros tan y cyflwynir hysbysiad statudol i gyflwyno gwrthwynebiad.

Os yw Cabinet y Cyngor yn rhoi sêl bendith ar y rhan gyntaf o'r broses, cyhoeddir Hysbysiad Statudol a bydd gennych 28 o ddiwrnodau i gyflwyno gwrthwynebiadau ffurfiol yn ysgrifenedig. I gyfrif fel gwrthwynebiadau Statudol, rhaid iddynt fod wedi'u gwneud yn ysgrifenedig a'u hanfon drwy'r post neu e-bost i'r cyfeiriadau uchod cyn pen 28 o ddiwrnodau.

Wedi i gyfnod yr Hysbysiad Statudol ddod i ben, byddai angen i Gabinet y Cyngor ystyried adroddiad arall, a fyddai'n crynhoi unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd a'r materion a godwyd, ynghyd ag ymateb y Cyngor iddynt, sef yr Adroddiad Gwrthwynebiadau. Ar sail hynny, bydd y Cabinet yn penderfynu gweithredu'r cynnig neu beidio. Bydd yr adroddiad hefyd ar gael i bawb ei ddarllen ar wefan y Cyngor a gellir gwneud cais am gopi caled.

Bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu a ddylid cymeradwyo'r cynnig neu beidio ar ôl ystyried yr Adroddiad Gwrthwynebiadau.

Ar ôl y penderfyniad, anfonir copi electronig o'r Hysbysiad o Benderfyniad at yr holl fudd-ddeiliaid a nodir yn y rhestr ohebu cyn pen saith o ddiwrnodau wedi'r penderfyniad.

Dyma'r amserlen arfaethedig ar gyfer penderfynu wedi'r drefn ymgynghori ffurfiol:

| Cam o’r Broses | Dyddiadau Allweddol |
|---|---|
| Y Cabinet yn ystyried canlyniadau’r ymgynghoriad ac yn penderfynu a ddylid symud ymlaen â’r cynigion | Medi / Hydref 2026 |
| Y Cyngor yn cyhoeddi hysbysiad statudol a chychwyn cyfnod gwrthwynebu | Hydref / Tachwedd 2026 |
| Y Cabinet yn ystyried yr adroddiad gwrthwynebu ac yn penderfynu p’un a ddylid gweithredu’r cynigion ai peidio | Ionawr / Chwefror 2027 |
| Llythyr hysbysiad o’r penderfyniad yn cael ei gyhoeddi gyda chanlyniad penderfyniad y Cabinet | Chwefror / Mawrth 2027 |

Mae gweddill y ddogfen ymgynghori’n amlinellu’r rhesymau dros y newidiadau arfaethedig i ad-drefnu Addysg Gatholig yn Sir y Fflint.  Dymunwn ichi ystyried y wybodaeth yn y ddogfen hon a lleisio’ch barn o blaid neu yn erbyn y cynigion.

# RHAN B. YR ACHOS DROS NEWID

Bwriad y wybodaeth yn yr adran hon yw egluro cyd-destun datblygu'r cynnig. Nid yw'n cynrychioli penderfyniad terfynol a'r bwriad yw cefnogi ymgysylltiad ar sail gwybodaeth gyda'r broses ymgynghori.

## B.1. Rhesymau dros newid

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am adolygu a moderneiddio holl ddarpariaeth ysgolion, er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r cyfleoedd gorau posibl i ddysgwyr, fel y gallant gyflawni eu potensial llawn. Mae angen sicrhau bod nifer ddigonol o leoedd mewn ysgolion, o'r math cywir, yn y lleoliadau cywir.

Mae perthynas dda rhwng yr Esgobaeth a'r Cyngor wedi galluogi cynnal trafodaethau agored a gonest, gyda'r nod o sicrhau darpariaeth Addysg Gatholig yn Sir y Fflint.

Er mwyn cyflawni cynaliadwyedd hirdymor, cytunwyd bod angen:

- Lleihau nifer y lleoedd gwag.
- Gwella'r amgylchedd dysgu mewn rhai ysgolion.
- Sicrhau bod arweinyddiaeth ragorol ar draws y sector.
- Darparu cwricwlwm o 3-18 oed
- Datblygu addysg Gymraeg ymhellach

## B.2. Cefndir y Cynnig

Mae'r Cyngor yn cadw darpariaeth ysgolion o dan adolygiad rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu ei ddyletswyddau statudol i ddysgwyr, yn darparu gwerth am arian, ac yn parhau'n gynaliadwy dros y cyfnod hwy. Mae'r broses adolygu'n ystyried safonau addysgol, cyflwr ac addasrwydd adeiladau'r ysgolion, lefelau capasiti lleoedd gwag, tueddiadau demograffig a chyfleoedd i gael mynediad at fuddsoddiad allanol.

Yn y ddarpariaeth Gatholig, mae'r adolygiad wedi nodi cyfuniad o leoedd gwag sylweddol, adeiladau ysgol sy'n heneiddio, a chyfyngiadau o ran addasrwydd yr eiddo presennol. Mae'r ffactorau hyn yn golygu bod y Cyngor wedi ystyried a yw'n ofynnol cyflwyno newidiadau i'r trefniadau presennol.

Mae'r cynnig a nodir yn y ddogfen hon yn cynrychioli un o'r dewisiadau a nodwyd drwy'r broses adolygu. Mae'r Cyngor yn ceisio safbwyntiau a yw'r dewis hwn yn cynrychioli'r ffordd fwyaf priodol o symud ymlaen er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

Er mwyn ad-drefnu mae'r Cyngor yn cynnig:

- Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney erbyn 31 Awst 2027.
- Uno Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint.
- Byddai'r uno'n golygu:
  - y byddai'r ysgolion unigol yn cau erbyn 31 Awst 2027
  - y byddai ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir 3-18 oed cyfrwng Saesneg newydd gydag enw a rhif ysgol newydd, yn agor ar 1 Medi 2027

- y byddai'r ysgol newydd yn gweithredu dros y tri safle presennol nes bydd adeilad ysgol newydd yn cael ei adeiladu (rhagwelir Medi 2030).

## B.3. Sut cyrhaeddom ni yma?

Gyda niferoedd y disgyblion yn gostwng ac adeiladau'r ysgolion yn heneiddio ac angen buddsoddiad sylweddol, mae'r Esgobaeth wedi penderfynu adolygu ei hysgolion yn Sir y Fflint gyda'r nod o sicrhau bod y ddarpariaeth Gatholig yn fwy cadarn a chynaliadwy.

Yn ystod Tachwedd 2023, dechreuodd yr Esgobaeth gynnal trafodaethau gyda phenaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr y chwe ysgol Gatholig yn Sir y Fflint.  Oherwydd natur sensitif y trafodaethau ac er mwyn sicrhau bod yr holl ysgolion yn aros yn sefydlog, cynhaliwyd y cyfarfodydd yn gwbl gyfrinachol nes y cytunwyd ar ffordd ymlaen arfaethedig.

Cafwyd sawl cyfarfod dros sawl mis i ystyried yr holl ddewisiadau.  Nodwyd manteision ac anfanteision pob dewis i benderfynu beth y gellir ei wneud ar gyfer dyfodol addysg Gatholig yn Sir y Fflint.  Pan nodwyd dewis fel y ffordd orau o symud ymlaen, ceisiodd yr Esgobaeth gymorth gan y Cyngor i gyflwyno'r broses statudol.

Ym mis Mehefin 2025 lansiwyd ymgynghoriad i geisio safbwyntiau budd-ddeiliaid ar y cynnig. Ymgysylltodd nifer o bobl a sefydliadau gyda'r broses a darparu adborth ar sawl maes a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, penderfynodd Cabinet y Cyngor y dylid parhau â'r broses ac fe gyflwynwyd Hysbysiad Statudol ym mis Tachwedd 2025, ac yna cafwyd cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod i ddilyn.

Ond, cyn y penderfyniad terfynol bu'n rhaid oedi'r broses statudol gyntaf oherwydd her gyfreithiol hwyr.  Er mwyn arfer diwydrwydd dyladwy, ceisiodd y Cyngor gyngor cyfreithiol ac roedd yn ofynnol cymryd digon o amser i ystyried y cyngor a gafwyd.  Ceisiodd y Cyngor gyngor cyfreithiol mewn ymateb i hynny, roedd yr amser a oedd ei angen i ystyried y cyngor hwnnw yn golygu nad oedd posib bodloni'r amserlen statudol a nodir yn ail rifyn y Cod mwyach.  Gan fod y Cod yn gofyn am gydymffurfio'n llym gyda'r terfynau amser, fe ddaeth y cynnig gwreiddiol 'i ben' heb benderfyniad.

Yn dilyn gwerthusiad, mae'r Cyngor yn dal i fod o'r farn y dylid dwyn y cynigion gwreiddiol ymlaen er mwyn i'r Cabinet wneud penderfyniad arnynt. Bydd cwblhau'r broses statudol yn darparu eglurder ar gyfer dyfodol darpariaeth addysg Gatholig yn Sir y Fflint.

Ers oedi'r broses wreiddiol, mae trydydd rhifyn y Cod wedi'i gyhoeddi.  Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cael ei gyflawni'n unol â'r trydydd rhifyn newydd o'r Cod ac yn darparu cyfle teg a phriodol i fudd-ddeiliaid gyflwyno sylwadau.

Bydd yn rhaid i'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad gwreiddiol ymateb eto gan fod hwn yn ymgynghoriad statudol newydd o dan rifyn newydd o'r Cod.

Dylid nodi er bod y cynnig yn destun ymgynghoriad am yr eildro, nid yw'r canlyniad wedi'i benderfynu ymlaen llaw.  Mae'n rhaid i bob cam o'r broses statudol gael ei ystyried yn ffurfiol a'i benderfynu gan Gabinet y Cyngor. Ar bob cam bydd y Cabinet yn derbyn y wybodaeth berthnasol, gan gynnwys yr adborth a'r dystiolaeth a gesglir yn ystod y rhan honno o'r broses.

Gan na ellir rhagweld ymatebion a gwrthwynebiadau'r ymgynghoriad ymlaen llaw dim ond unwaith y bydd yr holl wybodaeth o bob cam ar gael y bydd y Cabinet yn gallu gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn sicrhau fod penderfyniadau wedi eu seilio ar y dystiolaeth lawn, yn unol â gofynion y Cod newydd, a bod y broses yn parhau yn deg, tryloyw ac nad yw'n broses a benderfynir ymlaen llaw.

## B.4. Ymgynghori gydag Ymddiriedolwyr

Fel rhan o'r broses hon, sy'n cynnwys tir ac / neu adeiladau sy'n cael eu cadw mewn ymddiriedolaeth neu sydd â chymeriad crefyddol dynodedig, mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori gydag ymddiriedolwyr a / neu y corff crefyddol priodol cyn cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori.

Fel y nodwyd uchod, mae'r Ymddiriedolwyr a'r Esgobaeth wedi cyfranogi drwy gydol datblygiad y cynnig a'r broses statudol gyntaf. Cyn cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori hon, ymgynghorwyd yn ffurfiol ar y cynnig gyda'r ymddiriedolwyr a'r Esgobaeth unwaith eto. Rhoddodd yr ymgynghoriad hwn o leiaf 28 diwrnod i gyfranogwyr yr Esgobaeth ystyried y cynnig gwreiddiol, canlyniadau'r ymgynghoriad statudol cyntaf a chyfle i gefnogi neu wrthod y cynnig, neu gynnig dewis amgen.

Yn ystod yr ymgynghoriad gyda'r Ymddiriedolwyr a'r Esgobaeth, ni ddaeth unrhyw ddewisiadau newydd i'r amlwg ac mae'r cynnig yn derbyn eu cefnogaeth lawn.

# RHAN C. DARPARIAETH BRESENNOL

## C.1. Trosolwg

Yn Sir y Fflint mae chwe ysgol wedi eu categoreiddio fel ysgolion Catholig gwirfoddol a gynorthwyir cyfrwng Saesneg:

- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Saltney.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant, yr Wyddgrug.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair, y Fflint.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Santes Gwenffrewi, Treffynnon.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Hybarch Edward Morgan, Shotton.
- Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn, y Fflint

At ddibenion y ddogfen hon, cyfeirir at yr ysgolion gan ddefnyddio eu henw unigryw byrrach. Er enghraifft, cyfeirir at Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Saltney, fel Sant Anthony.

Mae ysgolion Sant Anthony, Dewi Sant, y Santes Fair a Sant Richard Gwyn yn cael eu cynnwys yn y cynnig hwn a byddant yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol os bydd yn cael ei roi ar waith.

Mae'r Cod yn nodi y dylid ystyried yr effaith ar ysgolion sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig. Ond, nid oes meini prawf yn y Cod i bennu sut mae *"ysgol yn debygol o gael ei heffeithio"* gan gynnig.


Er nad yw'n destun i'r cynnig, mae'r Hybarch Edward Morgan yn debygol o dderbyn disgyblion o'r ysgolion dan sylw. Nid yw'n debygol y bydd y cynnig yn cael fawr o effaith ar Santes Gwenffrewi. Yn yr un modd, nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith sylweddol ar Ysgol Gynradd Gatholig St Clare's yn Lache, Caer (CH4 8HX) na'r Ysgol Uwchradd Gatholig yn Handbridge (CH4 7HS).

## C.2. Lleoliadau

Mae Saltney yn dref ac yn rhan o ward etholiadol Saltney Ferry, Sir y Fflint i'r dwyrain o bentref Brychdyn ac ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr nid nepell o ddinas Caer. Amcangyfrifwyd bod poblogaeth preswylwyr ward Saltney Ferry yn 5,199 yn 2024.

Mae'r Wyddgrug yn Sir y Fflint mewn lleoliad canolog o fewn y sir ac yn cynnwys pedair ward etholiadol. Amcangyfrifwyd bod poblogaeth preswylwyr pedair ward yr Wyddgrug yn 10,280 yn 2024.

Mae'r Fflint yn dref arfordirol sydd wedi'i lleoli yng ngogledd y sir ac yn cynnwys tair ward etholiadol. Amcangyfrifwyd bod poblogaeth preswylwyr tair ward y Fflint yn 14,110 yn 2024.




Nodir y pellteroedd cerdded rhwng y chwe ysgol Gatholig yn Sir y Fflint isod.

| | Sant Anthony | Dewi Sant | Y Santes Fair | Sant R. Gwyn | Sant Gwenffrewi | H.E.M |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sant Anthony** | | 9.42 | 10.36 | 10.32 | 15.30 | 6.11 |
| **Dewi Sant** | 9.42 | | 5.64 | 5.90 | 9.02 | 5.56 |
| **Y Santes Fair** | 10.36 | 5.64 | | 0.15 | 5.48 | 4.94 |
| **Sant R. Gwyn** | 10.32 | 5.90 | 0.15 | | 5.60 | 4.91 |
| **Sant Gwenffrewi** | 15.30 | 9.02 | 5.48 | 5.60 | | 9.88 |
| **H.E.M** | 6.11 | 5.56 | 4.94 | 4.91 | 9.88 | |

## C.3. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Saltney

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Lleoliad yr Ysgol** | | Stryd Fawr, Saltney (CH4 8SG) | |
| **Ystod Oedran** | | 3-11 | |
| **Categori Iaith** | | Cyfrwng Saesneg | |
| **Categori Ysgol** | | Gwirfoddol a Gynorthwyir | |
| **Ffydd** | | Catholig | |
| | | Derbyn – Blwyddyn 6 | Meithrin |
| **Nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol** | **Medi 2025** | 47 | 4 |
| | **Medi 2024** | 68 | 6 |
| | **Medi 2023** | 69 | 4 |
| | **Medi 2022** | 77 | 2 |
| | **Medi 2021** | 76 | 5 |
| | **Medi 2020** | 99 | 8 |
| **Capasiti** | | 152 | 19 |
| **Lleoedd Gwag** | | 105 | |
| **Niferoedd Derbyn** | | 21 | |
| **Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion** | **Medi 2026** | 44 | 5 |
| | **Medi 2027** | 43 | 5 |
| | **Medi 2028** | 38 | 5 |
| | **Medi 2029** | 34 | 5 |
| | **Medi 2030** | 35 | 5 |
| **Categori Cyflwr yr Adeilad** | Dyddiad yr Arolwg Medi 2023<br>Gradd Cyflwr B – Boddhaol<br>Perfformio fel y bwriedir ond yn dangos ychydig o ddirywiad | | |
| **Addasrwydd yr Adeilad** | Dyddiad yr Arolwg Tachwedd 2016<br>Gradd Addasrwydd C – Gwael<br>Cyfyngu ar ddulliau addysgu / effaith andwyol ar drefniadaeth yr ysgol | | |
| **Ôl-groniad Cynnal a Chadw** | £20,830.58 (nid yw hyn yn cynnwys unrhyw ffioedd perthnasol, costau rhagarweiniol, a TAW). | | |
| **Cyllid** | Dyraniad cyllid 26/27 = £375,865.<br>Cyllideb Staffio (addysgu, cefnogaeth yn yr ystafell ddosbarth, gweinyddu ac ADY) - £293,868<br>Cyllideb costau'r ysgol fesul disgybl 26/27 = £7,671<br>Y gyfran gyfartalog o'r gyllideb fesul disgybl yn Sir y Fflint (26/27) yw £5,360. | | |
| **Effaith Carbon** | Sgôr Tystysgrif Ynni i'w Harddangos E (Adolygiad 10 mlynedd cyn bo hir)<br>Defnydd Trydan 25,413 kWh<br>Defnydd Nwy 72,073 kWh<br>Cyfanswm defnydd ynni 97,486 kWh<br>Cyfanswm Allyriadau Carbon 22,252.8 kgC02e | | |
| **Niferoedd wedi'u bedyddio** | 13 o'r 65 o ddisgyblion (20%) wedi'u cofnodi fel rhai sydd wedi derbyn bedydd Catholig | | |

## C.4. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant, Yr Wyddgrug

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Lleoliad yr Ysgol** | | St David's Lane, Yr Wyddgrug (CH7 1LH) | |
| **Ystod Oedran** | | 3-11 | |
| **Categori Iaith** | | Cyfrwng Saesneg | |
| **Categori Ysgol** | | Gwirfoddol a Gynorthwyir | |
| **Ffydd** | | Catholig | |
| | | Derbyn – Blwyddyn 6 | Meithrin |
| **Nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol** | **Medi 2025** | 60 | 4 |
| | **Medi 2024** | 71 | 8 |
| | **Medi 2023** | 68 | 7 |
| | **Medi 2022** | 77 | 5 |
| | **Medi 2021** | 74 | 10 |
| | **Medi 2020** | 80 | 11 |
| **Capasiti** | | 144 | 14 |
| **Lleoedd Gwag** | | 84 | |
| **Niferoedd Derbyn** | | 20 | |
| **Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion** | **Medi 2026** | 51 | 7 |
| | **Medi 2027** | 48 | 6 |
| | **Medi 2028** | 43 | 6 |
| | **Medi 2029** | 42 | 7 |
| | **Medi 2030** | 45 | 7 |
| **Categori Cyflwr yr Adeilad** | Dyddiad yr Arolwg Gorffennaf 2024<br>Gradd Cyflwr B – Boddhaol<br>Perfformio fel y bwriedir ond yn dangos ychydig o ddirywiad | | |
| **Addasrwydd yr Adeilad** | Dyddiad yr Arolwg Tachwedd 2016<br>Gradd Addasrwydd C – Gwael<br>Cyfyngu ar ddulliau addysgu / effaith andwyol ar drefniadaeth yr ysgol | | |
| **Ôl-groniad Cynnal a Chadw** | £178,507.05 (nid yw hyn yn cynnwys unrhyw ffioedd perthnasol, costau rhagarweiniol, a TAW). | | |
| **Cyllid** | Dyraniad cyllid 26/27 = £448,408.<br>Cyllideb Staffio (addysgu, cefnogaeth yn yr ystafell ddosbarth, gweinyddu ac ADY) - £356,006<br>Cyllideb costau'r ysgol fesul disgybl 26/27 = £7,232<br>Y gyfran gyfartalog o'r gyllideb fesul disgybl yn Sir y Fflint (26/27) yw £5,360. | | |
| **Effaith Carbon** | Sgôr Tystysgrif Ynni i'w Harddangos C<br>Defnydd Trydan 26,979 kWh<br>Defnydd Nwy 108,646 kWh<br>Cyfanswm defnydd ynni 135,625 kWh<br>Cyfanswm Allyriadau Carbon 30,471.7 kgC02e | | |
| **Niferoedd wedi'u bedyddio** | 36 o'r 70 o ddisgyblion (51.4%) wedi'u cofnodi fel rhai sydd wedi derbyn bedydd Catholig | | |

## C.5. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair, Y Fflint

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Lleoliad yr Ysgol** | | Ffordd Llewelyn, y Fflint (CH6 5JZ) | |
| **Ystod Oedran** | | 3-11 | |
| **Categori Iaith** | | Cyfrwng Saesneg | |
| **Categori Ysgol** | | Gwirfoddol a Gynorthwyir | |
| **Ffydd** | | Catholig | |
| | | Derbyn – Blwyddyn 6 | Meithrin |
| **Nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol** | **Medi 2025** | 251 | 30 |
| | **Medi 2024** | 232 | 29 |
| | **Medi 2023** | 224 | 28 |
| | **Medi 2022** | 218 | 25 |
| | **Medi 2021** | 208 | 26 |
| | **Medi 2020** | 211 | 27 |
| **Capasiti** | | 317 | 29 |
| **Lleoedd Gwag** | | 66 | |
| **Niferoedd Derbyn** | | 45 | |
| **Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion** | **Medi 2026** | 248 | 32 |
| | **Medi 2027** | 239 | 31 |
| | **Medi 2028** | 226 | 31 |
| | **Medi 2029** | 224 | 32 |
| | **Medi 2030** | 221 | 32 |
| **Categori Cyflwr yr Adeilad** | Dyddiad yr Arolwg Ebrill 2024<br>Gradd Cyflwr C - Gwael<br>Arddangos diffygion mawr a / neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd | | |
| **Addasrwydd yr Adeilad** | Dyddiad Arolwg Ionawr 2017<br>Gradd Addasrwydd B - Boddhaol<br>Perfformio fel y bwriedir ond nid yw’n cefnogi’r cwricwlwm mewn rhai meysydd | | |
| **Ôl-groniad Cynnal a Chadw** | £401,701.91 (nid yw hyn yn cynnwys unrhyw ffioedd perthnasol, costau rhagarweiniol, a TAW). | | |
| **Cyllid** | Dyraniad cyllid 26/27 = £1,291,515.<br>Cyllideb Staffio (addysgu, cefnogaeth yn yr ystafell ddosbarth, gweinyddu ac ADY) - £1,092,907<br>Cyllideb costau’r ysgol fesul disgybl 26/27 = £4,855<br>Y gyfran gyfartalog o’r gyllideb fesul disgybl yn Sir y Fflint (26/27) yw £5,360. | | |
| **Effaith Carbon** | Sgôr Tystysgrif Ynni i’w Harddangos D<br>Defnydd Trydan 55,345 kWh<br>Defnydd Nwy 226,854 kWh<br>Cyfanswm defnydd ynni 199,458 kWh<br>Cyfanswm Allyriadau Carbon 63,299.6 kgC02e | | |
| **Niferoedd wedi’u bedyddio** | 133 o’r 225 o ddisgyblion (59.1%) wedi’u cofnodi fel rhai sydd wedi derbyn bedydd Catholig | | |

## C.6. Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Sant Richard Gwyn, y Fflint


| | | |
|---|---|---|
| **Lleoliad yr Ysgol** | | Albert Avenue, y Fflint (CH6 5JZ) |
| **Ystod Oedran** | | 11-18 |
| **Categori Iaith** | | Cyfrwng Saesneg |
| **Categori Ysgol** | | Gwirfoddol a Gynorthwyir |
| **Ffydd** | | Catholig |
| | | Blwyddyn 7 - Blwyddyn 13 |
| **Nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol** | **Medi 2025** | 739 |
| | **Medi 2024** | 794 |
| | **Medi 2023** | 772 |
| | **Medi 2022** | 805 |
| | **Medi 2021** | 808 |
| | **Medi 2020** | 784 |
| **Capasiti** | | 969 |
| **Lleoedd Gwag** | | 230 |
| **Niferoedd Derbyn** | | 166 |
| **Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion** | **Medi 2026** | 683 |
| | **Medi 2027** | 666 |
| | **Medi 2028** | 614 |
| | **Medi 2029** | 562 |
| | **Medi 2030** | 544 |
| **Trefniadau Chweched Dosbarth** | Yn 2013 fe fu i Ysgol Sant Richard Gwyn ac Ysgol Uwchradd y Fflint uno eu darpariaeth chweched dosbarth i gynnal ei hyfywedd | |
| **Categori Cyflwr yr Adeilad** | Dyddiad yr Arolwg Tachwedd 2024<br>Gradd Cyflwr C - Gwael<br>Arddangos diffygion mawr a / neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd | |
| **Addasrwydd yr Adeilad** | Gradd Addasrwydd C – Gwael<br>Cyfyngu ar ddulliau addysgu / effaith andwyol ar drefniadaeth yr ysgol | |
| **Ôl-groniad Cynnal a Chadw** | £853,422.08 (nid yw hyn yn cynnwys unrhyw ffioedd perthnasol, costau rhagarweiniol, a TAW). | |
| **Cyllid** | Dyraniad cyllid 26/27 = £4,518,309 gan gynnwys ôl 16<br>Cyllideb Staffio (addysgu, cefnogaeth yn yr ystafell ddosbarth, gweinyddu ac ADY) - £3,883,643 gan gynnwys yr holl gyllid ôl 16.<br>Cost cyllideb yr ysgol fesul disgybl 26/27 = £6,114 gan gynnwys ôl 16.<br>Cyfran gyfartalog o'r gyllideb fesul disgybl yn Sir y Fflint(26/27) yw £6,241 gan gynnwys ôl 16. | |
| **Effaith Carbon** | Sgôr Tystysgrif Ynni i'w Harddangos C<br>Defnydd Trydan 243,507 kWh<br>Defnydd Nwy 626,000 kWh<br>Cyfanswm defnydd ynni 199,458 kWh<br>Cyfanswm Allyriadau Carbon 315,482.30 kgC02e | |
| **Niferoedd wedi'u bedyddio** | 370 o'r 772 o ddisgyblion (47.9%) wedi'u cofnodi fel rhai sydd wedi derbyn bedydd Catholig | |

## C.7. Gwybodaeth Ddemograffig

### C.7.i. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Saltney

Mae'r dadansoddiad demograffig (fel ag yr oedd ym mis Mawrth 2026) wedi dangos bod Ysgol Sant Anthony'n gwasanaethu ardal Saltney, gydag oddeutu 95.35% o'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn dewis eu hysgol gynradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir agosaf yn Sir y Fflint.


Map o leoliadau disgyblion sy'n mynychu Ysgol Sant Anthony:




### C.7.ii. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant, Yr Wyddgrug

Mae'r dadansoddiad demograffig (fel ag yr oedd ym mis Mawrth 2026) wedi dangos bod Ysgol Dewi Sant yn gwasanaethu ardal yr Wyddgrug, gydag oddeutu 80.00% o'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn dewis eu hysgol gynradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir agosaf yn Sir y Fflint.


Map o leoliadau disgyblion sy'n mynychu Ysgol Dewi Sant:




### C.7.iii. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair, Y Fflint

Mae'r dadansoddiad demograffig (fel ag yr oedd ym mis Mawrth 2026) wedi dangos bod Ysgol y Santes Fair yn gwasanaethu ardal y Fflint, gydag oddeutu 94.24% o'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn dewis eu hysgol gynradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir agosaf yn Sir y Fflint.


Map o leoliadau disgyblion sy'n mynychu Ysgol y Santes Fair:



### C.7.iv. Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Sant Richard Gwyn, y Fflint

Mae'r dadansoddiad demograffig (fel ag yr oedd ym mis Mawrth 2026) wedi dangos bod Ysgol Sant Richard Gwyn yn denu disgyblion ar draws y sir. Er bod yr holl ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn mynychu eu hysgol uwchradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir agosaf yn Sir y Fflint, dyma fydd yr achos bob tro gan mai hon yw'r unig ysgol o'i math yn Sir y Fflint.

Map o leoliadau disgyblion sy'n mynychu Ysgol Sant Richard Gwyn:




### C.7.v. Gwerthusiad o'r Ardal

Mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir y Fflint yn 2023 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2015 a 2030. Mae'r Cynllun yn pennu'r modd y bydd trefi a phentrefi Sir y Fflint yn tyfu ac yn newid, gan gynnwys nodi ble ddylai datblygiadau ddigwydd neu beidio.

Gall y CDLl gael effaith ar niferoedd disgyblion a dylanwadu ar ddyletswydd y Cyngor i ddarparu'r nifer priodol o lefydd ysgol yn y lleoliadau cywir, gan leihau costau cynnal a sicrhau cynaliadwyedd.

Mae pedair ysgol yn ward Saltney Ferry:

- Ysgol Gynradd Gymunedol Saltney Ferry.
- Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony.
- Ysgol Uwchradd Dewi Sant.

Yr ysgolion cynradd ac uwchradd Catholig agosaf at Ysgol Sant Anthony, yn ôl pellter cerdded, yw:

- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Hybarch Edward Morgan, Shotton (6.11 milltir).
- Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn, y Fflint (10.32 milltir).

Golyga hyn mai Ysgol Sant Anthony yw'r unig ysgol gynradd Gatholig sy'n gwasanaethu ward Saltney Ferry yn uniongyrchol.

Nid oes unrhyw safleoedd i'w datblygu yn ardal Saltney wedi'u pennu yn y CDLl presennol. Heb ddisgyblion ychwanegol yn symud i'r ardal, mae'r nifer uchel o lefydd gwag yn Ysgol Sant Anthony yn dangos nad oes digon o alw am yr ysgol.  Felly, byddai cau Ysgol Sant Anthony'n datrys y broblem o lefydd gwag yn yr ardal.

Yn ward Dwyrain yr Wyddgrug, mae dwy ysgol:

- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant
- Ysgol Bryn Coch

Mae pedair ysgol o fewn y tair ward arall yn yr Wyddgrug:

- Ysgol Gynradd Bryn Gwalia
- Ysgol Glanrafon
- Ysgol Uwchradd Alun
- Ysgol Maes Garmon

Yr ysgolion cynradd ac uwchradd Catholig agosaf at Ysgol Dewi Sant, yn ôl pellter cerdded, yw:

- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Hybarch Edward Morgan, Shotton (5.56 milltir).
- Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn, y Fflint (5.90 milltir).

Golyga hyn mai Ysgol Dewi Sant yw'r unig ysgol gynradd Gatholig sy'n gwasanaethu ward Dwyrain yr Wyddgrug ac ardal ehangach yr Wyddgrug yn uniongyrchol.

Mae safleoedd yn ardal yr Wyddgrug a ddyrannwyd ar gyfer datblygiad yn y CDLl ond nad ydynt wedi'u cwblhau eto.  Gallai'r safleoedd hyn ddenu mwy o ddisgyblion i'r ardal ar ôl eu cwblhau, fodd bynnag, o ystyried nifer yr ysgolion yn yr ardal, a'r defnydd o ffafriaeth rhieni o ran derbyniadau ysgol, ni ellir pennu p'un a fyddai disgyblion ychwanegol yn mynychu'r ysgol.

Gyda nifer fechan o ddisgyblion ychwanegol yn symud i'r ardal, neu ddim o gwbl, mae'r nifer uchel o lefydd gwag yn Ysgol Dewi Sant yn dangos nad oes digon o alw am yr ysgol.  Felly, byddai cau Ysgol Dewi Sant yn datrys y broblem o lefydd gwag yn yr ardal.

Mae pum ysgol yn ward y Fflint Coleshill a'r Fflint Trelawny:

- Ysgol Gynradd Gymunedol Parc Cornist
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair
- Ysgol Gwynedd
- Ysgol Uwchradd y Fflint
- Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn

Mae un ysgol o fewn y ddwy ward arall yn y Fflint:

- Ysgol Gymraeg Croes Atti

Yr ysgolion cynradd ac uwchradd Catholig agosaf at Ysgol y Santes Fair, yn ôl pellter cerdded, yw:

- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Hybarch Edward Morgan, Shotton (4.94 milltir).
- Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn, y Fflint (0.15 milltir).

Golyga hyn mai Ysgol y Santes Fair yw'r unig ysgol gynradd Gatholig sy'n gwasanaethu ward y Fflint Coleshill a'r Fflint Trelawny ac ardal ehangach y Fflint yn uniongyrchol.

Ysgol Sant Richard Gwyn yw'r unig ysgol uwchradd Gatholig yn Sir y Fflint ac felly mae'n gwasanaethu'r sir gyfan.


Mae safleoedd yn ardal y Fflint a ddyrannwyd ar gyfer datblygiad yn y CDLl ond nad ydynt wedi'u cwblhau eto.  Gallai'r safleoedd hyn ddenu mwy o ddisgyblion i'r ardal ar ôl eu cwblhau, fodd bynnag, o ystyried nifer yr ysgolion yn yr ardal, a'r defnydd o ffafriaeth rhieni o ran derbyniadau ysgol, ni ellir pennu p'un a fyddai disgyblion ychwanegol yn mynychu'r ysgol.

Gyda nifer fechan o ddisgyblion ychwanegol yn mynychu'r ysgol o ddatblygiadau tai, neu ddim o gwbl, bydd nifer uchel o lefydd gwag yn Ysgol y Santes Fair yn parhau i fod yn uchel ond yn llawer is o'i gymharu ag ysgol Sant Anthony a Dewi Sant.

## C.8. Rhagolygon Disgyblion

### C.8.i. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Saltney

| | GWIR | | | | | DATA DIWEDDARAF | AMCANESTYNIAD | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grŵp Blwyddyn** | **Med-20** | **Med-21** | **Med-22** | **Med-23** | **Med-24** | **Med-25** | **Med-26** | **Med-27** | **Med-28** | **Med-29** | **Med-30** | **Tuedd 5 Mlynedd** |
| **Meithrin** | 8 | 5 | 2 | 4 | 6 | 4 | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | 1 |
| **Derbyn** | 12 | 9 | 6 | 4 | 6 | 5 | 4 | 5 | 5 | 5 | 5 | 0 |
| **Blwyddyn 1** | 15 | 10 | 10 | 7 | 6 | 6 | 5 | 4 | 5 | 5 | 5 | -1 |
| **Blwyddyn 2** | 17 | 9 | 9 | 9 | 10 | 4 | 6 | 5 | 4 | 5 | 5 | 1 |
| **Blwyddyn 3** | 12 | 15 | 11 | 9 | 12 | 9 | 4 | 6 | 5 | 4 | 5 | -4 |
| **Blwyddyn 4** | 16 | 11 | 14 | 13 | 9 | 10 | 9 | 4 | 6 | 5 | 4 | -6 |
| **Blwyddyn 5** | 12 | 14 | 11 | 14 | 10 | 6 | 10 | 9 | 4 | 6 | 5 | -1 |
| **Blwyddyn 6** | 15 | 8 | 16 | 13 | 15 | 7 | 6 | 10 | 9 | 4 | 6 | -1 |
| **Cyfanswm** | **99** | **76** | **77** | **69** | **68** | **47** | **44** | **43** | **38** | **34** | **35** | **-12** |
| **Uchafswm Disgyblion** | 152 | 152 | 152 | 152 | 152 | 152 | 152 | 152 | 152 | 152 | 152 | 0 |
| **Lleoedd Gwag** | 53 | 76 | 75 | 83 | 84 | 105 | 108 | 109 | 114 | 118 | 117 | 12 |
| **% Lleoedd Gwag** | 34.87% | 50.00% | 49.34% | 54.61% | 55.26% | 69.08% | 71.05% | 71.71% | 75.00% | 77.63% | 76.97% | 0 |
| **Niferoedd Derbyn** | 21 | 21 | 21 | 21 | 21 | 21 | 21 | 21 | 21 | 21 | 21 | 0 |
| | Disgyblion Derbyn yn trosglwyddo i'r ysgol o ysgol gyfagos yr amcanestynnir y bydd yn derbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer a bennwyd | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |





Mae Tîm Derbyniadau'r Cyngor wedi cadarnhau erbyn mis Mai 2026, nifer y disgyblion y cynigiwyd lle iddynt mewn dosbarth derbyn yn Ysgol Sant Anthony oedd 2. Mae hyn yn is na'r nifer a ragwelwyd o 4.

O ran lleoedd meithrin, mae 3 wedi'u dyrannu sydd hefyd yn is na'r nifer a ragwelwyd (5).

Mae'r ffigyrau hyn yn nodi galw isel am leoedd yn yr ysgol.

### C.8.ii. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant, Yr Wyddgrug

| | GWIR | | | | | DATA DIWEDDARAF | AMCANESTYNIAD | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp Blwyddyn | Med-20 | Med-21 | Med-22 | Med-23 | Med-24 | Med-25 | Med-26 | Med-27 | Med-28 | Med-29 | Med-30 | Tuedd 5 Mlynedd |
| Meithrin | 11 | 10 | 5 | 7 | 8 | 4 | 7 | 6 | 6 | 7 | 7 | 3 |
| Derbyn | 12 | 11 | 11 | 4 | 8 | 7 | 4 | 7 | 6 | 6 | 7 | 0 |
| Blwyddyn 1 | 7 | 11 | 12 | 10 | 4 | 8 | 7 | 4 | 7 | 6 | 6 | -2 |
| Blwyddyn 2 | 12 | 7 | 12 | 13 | 11 | 4 | 8 | 7 | 4 | 7 | 6 | 2 |
| Blwyddyn 3 | 8 | 13 | 10 | 13 | 13 | 7 | 4 | 8 | 7 | 4 | 7 | 0 |
| Blwyddyn 4 | 13 | 7 | 12 | 10 | 12 | 11 | 7 | 4 | 8 | 7 | 4 | -7 |
| Blwyddyn 5 | 14 | 11 | 9 | 10 | 12 | 10 | 11 | 7 | 4 | 8 | 7 | -3 |
| Blwyddyn 6 | 14 | 14 | 11 | 8 | 11 | 13 | 10 | 11 | 7 | 4 | 8 | -5 |
| **Cyfanswm** | **80** | **74** | **77** | **68** | **71** | **60** | **51** | **48** | **43** | **42** | **45** | **-15** |
| Uchafswm Disgyblion | 144 | 144 | 144 | 144 | 144 | 144 | 144 | 144 | 144 | 144 | 144 | 0 |
| Lleoedd Gwag | 64 | 70 | 67 | 76 | 73 | 84 | 93 | 96 | 101 | 102 | 99 | 15 |
| % Lleoedd Gwag | 44.44% | 48.61% | 46.53% | 52.78% | 50.69% | 58.33% | 64.58% | 66.67% | 70.14% | 70.83% | 68.75% | 0 |
| Niferoedd Derbyn | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 0 |
| | Disgyblion Derbyn yn trosglwyddo i'r ysgol o ysgol gyfagos yr amcanestynnir y bydd yn derbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer a bennwyd | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| | Disgyblion Derbyn yn trosglwyddo o'r ysgol i ysgol gyfagos gan yr amcanestynnir derbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer a bennwyd | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |





Mae Tîm Derbyniadau'r Cyngor wedi cadarnhau erbyn mis Mai 2026, nifer y disgyblion y cynigiwyd lle iddynt mewn dosbarth derbyn yn Ysgol Dewi Sant oedd 4. Roedd hyn yr un fath â'r rhagolygon.

O ran lleoedd meithrin, mae 4 wedi'u dyrannu sydd yn is na'r nifer a ragwelwyd (7).

Mae'r ffigyrau hyn yn nodi galw isel am leoedd yn yr ysgol.

### C.8.iii. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair, Y Fflint

| | GWIR | | | | | DATA DIWEDDARAF | AMCANESTYNIAD | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grŵp Blwyddyn** | **Med-20** | **Med-21** | **Med-22** | **Med-23** | **Med-24** | **Med-25** | **Med-26** | **Med-27** | **Med-28** | **Med-29** | **Med-30** | **Tuedd 5 Mlynedd** |
| **Meithrin** | 27 | 26 | 25 | 28 | 29 | 30 | 32 | 31 | 31 | 32 | 32 | 2 |
| **Derbyn** | 23 | 29 | 29 | 28 | 33 | 30 | 30 | 32 | 31 | 31 | 32 | 2 |
| **Blwyddyn 1** | 19 | 26 | 36 | 30 | 33 | 35 | 30 | 30 | 32 | 31 | 31 | -4 |
| **Blwyddyn 2** | 28 | 23 | 29 | 40 | 31 | 35 | 35 | 30 | 30 | 32 | 31 | -4 |
| **Blwyddyn 3** | 30 | 28 | 27 | 32 | 41 | 33 | 35 | 35 | 30 | 30 | 32 | -1 |
| **Blwyddyn 4** | 30 | 32 | 26 | 30 | 33 | 44 | 33 | 35 | 35 | 30 | 30 | -14 |
| **Blwyddyn 5** | 35 | 33 | 36 | 28 | 32 | 41 | 44 | 33 | 35 | 35 | 30 | -11 |
| **Blwyddyn 6** | 46 | 37 | 35 | 36 | 29 | 33 | 41 | 44 | 33 | 35 | 35 | 2 |
| **Cyfanswm** | **211** | **208** | **218** | **224** | **232** | **251** | **248** | **239** | **226** | **224** | **221** | **-30** |
| **Uchafswm Disgyblion** | 317 | 317 | 317 | 317 | 317 | 317 | 317 | 317 | 317 | 317 | 317 | 0 |
| **Lleoedd Gwag** | 106 | 109 | 99 | 93 | 85 | 66 | 69 | 78 | 91 | 93 | 96 | 30 |
| **% Lleoedd Gwag** | 33.44% | 34.38% | 31.23% | 29.34% | 26.81% | 20.82% | 21.77% | 24.61% | 28.71% | 29.34% | 30.28% | 0 |
| **Niferoedd Derbyn** | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 0 |
| | Disgyblion Derbyn yn trosglwyddo i'r ysgol o ysgol gyfagos yr amcanestynnir y bydd yn derbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer a bennwyd | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| | Disgyblion Derbyn yn trosglwyddo o'r ysgol i ysgol gyfagos gan yr amcanestynnir derbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer a bennwyd | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |





Mae Tîm Derbyniadau'r Cyngor wedi cadarnhau erbyn mis Mai 2026, nifer y disgyblion y cynigiwyd lle iddynt mewn dosbarth derbyn yn Ysgol y Santes Fair oedd 35.  Mae hyn yn uwch na'r nifer a ragwelwyd o 30.

O ran lleoedd meithrin, mae 20 wedi'u dyrannu sydd hefyd yn is na'r nifer a ragwelwyd (32).

Mae'r ffigyrau hyn yn nodi galw sefydlog am leoedd yn yr ysgol.

### C.8.iv. Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Sant Richard Gwyn, y Fflint

| | ACTUAL | | | | | LATEST DATA | FORECAST | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Year Group** | **Sep-20** | **Sep-21** | **Sep-22** | **Sep-23** | **Sep-24** | **Sep-25** | **Sep-26** | **Sep-27** | **Sep-28** | **Sep-29** | **Sep-30** | **5 Year Trend** |
| **Year 7** | 121 | 151 | 123 | 129 | 136 | 108 | 108 | 118 | 84 | 82 | 97 | -11 |
| **Year 8** | 167 | 124 | 149 | 128 | 134 | 135 | 108 | 108 | 118 | 84 | 82 | -53 |
| **Year 9** | 149 | 167 | 131 | 155 | 127 | 132 | 135 | 108 | 108 | 118 | 84 | -48 |
| **Year 10** | 106 | 149 | 160 | 136 | 165 | 130 | 132 | 135 | 108 | 108 | 118 | -12 |
| **Year 11** | 143 | 102 | 152 | 161 | 137 | 159 | 130 | 132 | 135 | 108 | 108 | -51 |
| **Year 12** | 51 | 70 | 31 | 40 | 59 | 40 | 46 | 38 | 39 | 39 | 32 | -8 |
| **Year 13** | 47 | 45 | 59 | 23 | 36 | 35 | 24 | 28 | 23 | 23 | 23 | -12 |
| **Total** | **784** | **808** | **805** | **772** | **794** | **739** | **683** | **666** | **614** | **562** | **544** | **-195** |
| **Capacity** | 969 | 969 | 969 | 969 | 969 | 969 | 969 | 969 | 969 | 969 | 969 | 0 |
| **Surplus Places** | 185 | 161 | 164 | 197 | 175 | 230 | 286 | 303 | 355 | 407 | 425 | 195 |
| **Surplus Places %** | 19.09% | 16.62% | 16.92% | 20.33% | 18.06% | 23.74% | 29.50% | 31.22% | 36.63% | 41.97% | 43.87% | 20.13% |
| **Admission Number** | 166 | 166 | 166 | 166 | 166 | 166 | 166 | 166 | 166 | 166 | 166 | 0 |
| | Reception transfers in to the school from a nearby school forecasted to exceed their admission number | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| | Reception transfers out of the school to a nearby school as admission number forecasted to be exceeded | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |




Mae Tîm Derbyniadau'r Cyngor wedi cadarnhau erbyn mis Mai 2026, nifer y disgyblion y cynigiwyd lle iddynt ym Mlwyddyn 7 yn Ysgol Sant Richard Gwyn oedd 135.  Mae hyn yn uwch na'r nifer a ragwelwyd o 108.

Mae'r ffigyrau hyn yn nodi galw sefydlog am leoedd yn yr ysgol.

## C.9. Ansawdd y Ddarpariaeth Addysg

Bydd y cynnig yn cynnal y safonau a'r ansawdd addysg presennol fel isafswm ar draws y ddarpariaeth Gatholig.

Mae Estyn a'r Cyngor yn monitro safonau ac ansawdd yr addysg yn ysgolion Sir y Fflint.  Estyn yw swyddfa Prif Arolygwr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n un o gyrff y Goron a ffurfiwyd dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol o'r Senedd ond yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru dan adran 104 yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Mae'r wybodaeth o'r adroddiadau arolwg diweddaraf a gyhoeddwyd gan Estyn ar gyfer yr ysgolion sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig hwn wedi'u hystyried fel rhan o'r broses adolygu.  Mae Ysgol Gynradd Gatholig Sant Anthony, Ysgol Gynradd Gatholig  Dewi Sant ac Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair oll wedi'u cydnabod gan Estyn fel ysgolion da, gan adlewyrchu ymrwymiad y staff a'r arweinwyr i ddarparu addysgu, dysgu a chymorth i ddisgyblion sy'n effeithiol.  Cydnabyddir, fodd bynnag, bod arolygon diweddaraf Estyn ar gyfer Ysgol Gynradd Gatholig Sant Anthony ac Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant wedi'u cynnal yn 2019 a 2020 yn y drefn honno.

Derbyniodd Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn arolwg Estyn ddiwethaf yn 2024 a'u rhoi mewn categori gwella ar yr adeg hynny.  Yn dilyn ymweliad monitro dilynol yn 2026, penderfynodd Estyn bod yr ysgol wedi cyflawni cynnydd digonol i fynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd yn 2024.

Nid yw'r cynnig a amlinellwyd yn y ddogfen hon yn codi o bryderon am ansawdd yr addysg sy'n cael ei ddarparu o fewn yr ysgolion unigol.  Yn hytrach, mae'n ffurfio rhan o adolygiad strategol ehangach o ddarpariaeth addysg Gatholig, yn seiliedig ar dystiolaeth arolygon dros amser, tueddiadau demograffig, ystyriaethau cynaliadwyedd, capasiti arweinyddiaeth a'r angen i sicrhau bod safonau uchel a mynediad cyfartal at adnoddau a chefnogaeth yn gyson ar draws yr holl ysgolion.

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio'n agos gydag arweinwyr ysgolion, cyrff llywodraethu, partneriaid yr esgobaeth ac Estyn i gefnogi gwelliant parhaus ac i sicrhau bod safonau addysgol yn cael eu cynnal a'u hatgyfnerthu fel rhan o unrhyw drefniadau ar gyfer y dyfodol.

### C.9.i. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Saltney

Cynhaliwyd arolwg diwethaf Estyn yn Ysgol Sant Anthony ym mis Ionawr 2019, a gellir ei weld drwy ddilyn y ddolen isod:

https://estyn.gov.wales/system/files/2021-08/Inspection%20report%20St%20Anthony%27s%20R.C.%20Primary%20School%202019.pdf

Gwnaeth yr adroddiad yr argymhellion canlynol:

- A1. Gwella safonau mewn Cymraeg fel ail iaith ar draws yr ysgol
- A2. Cynyddu presenoldeb cyffredinol.
- A3. Darparu rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 gymryd cyfrifoldeb am eu haddysg er mwyn datblygu fel dysgwyr annibynnol.
- A4. Darparu rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws meysydd dysgu gwahanol.

### C.9.ii. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant, Yr Wyddgrug

Cynhaliwyd arolwg diwethaf Estyn yn Ysgol Dewi Sant ym mis Mawrth 2020, a gellir ei weld drwy ddilyn y ddolen isod:

https://estyn.gov.wales/system/files/2022-01/St%2520David%2527s%2520Catholic%2520Primary%2520School_1.pdf

Gwnaeth yr adroddiad yr argymhellion canlynol:

- A1. Herio pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 i wella ac arwain eu haddysg er mwyn cyflawni eu potensial llawn.
- A2. Mireinio gweithdrefnau monitro er mwyn canolbwyntio'n well ar ganlyniadau disgyblion.
- A3. Sicrhau fod pob proses sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion addysg arbennig yn gadarn ac yn rhoi trosolwg clir o gynnydd disgyblion.
- A4. Gwella ansawdd sgiliau ysgrifennu estynedig disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

### C.9.iii. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair, Y Fflint

Cynhaliwyd arolwg diwethaf Estyn yn Ysgol y Santes Fair ym mis Tachwedd 2025, a gellir ei weld drwy ddilyn y ddolen isod:

https://estyn.gov.wales/app/uploads/2026/01/Inspection-report-St-Marys-R.C.-Primary-School-2026-2.pdf

Gwnaeth yr adroddiad yr argymhellion canlynol:

- A1. Cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion hŷn wneud dewisiadau ynglŷn â sut i gyflwyno eu dysgu.
- A2. Gwella'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm
- A3. Gwella cyfraddau absenoldeb parhaus.

### C.9.iv. Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Sant Richard Gwyn, y Fflint

Cynhaliwyd arolwg diwethaf Estyn yn Ysgol Sant Richard Gwyn ym mis Ebrill 2024, a gellir ei weld drwy ddilyn y ddolen isod:

https://estyn.gov.wales/app/uploads/2024/07/Inspection-report-St-Richard-Gwyn-Roman-Catholic-High-School-2024-1.pdf

Gwnaeth yr adroddiad yr argymhellion canlynol:

- A1 Gwella ansawdd dysgu a gwella ymgysylltiad a chynnydd disgyblion mewn perthynas â dysgu i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr adroddiad
- A2 Sicrhau fod prosesau hunanwerthuso a gwella'n canolbwyntio'n fwy penodol ar wella addysgu a'i effaith ar gynnydd disgyblion
- A3 Datblygu dull strategol i gynllunio, gwerthuso a gwella datblygiad cynyddol sgiliau disgyblion ar gyfer pob disgybl
- A4 Sicrhau bod gan bob disgybl fynediad llawn at ddarpariaeth i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg

Yn ogystal â'r argymhellion roedd yr adroddiad yn nodi "Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae HMCI o'r farn bod yr ysgol angen gwelliant sylweddol. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol am 12 mis ar ôl cyhoeddi eu hadroddiad."

Daeth Estyn yn ôl ar gyfer arolwg dilynol ym mis Chwefror 2026 a nodwyd bod yr ysgol "wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolwg craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru'n tynnu'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion sydd angen gwella'n sylweddol."

Gellir gweld yr adroddiad dilynol drwy ddilyn y ddolen isod:

https://estyn.gov.wales/app/uploads/2026/03/Monitoring-report-St-Richard-Gwyn-Roman-Catholic-High-School-2026.pdf

### C.9.v. Fframwaith Arolygu

Mae Fframwaith Arolygu Estyn yn gwerthuso perfformiad a chynnydd ysgolion ar draws tri maes arolygu:

- IA1 - Addysgu a Dysgu
- IA2 - Lles, Gofal, Cefnogaeth ac Arweiniad
- IA3 - Arwain a Gwella

Er bod y fframwaith arolygu wedi'i strwythuro o amgylch y tri maes hyn, maent yn cynnwys ystod o ffactorau sy'n cyfrannu at safonau addysgol, cynnydd dysgwyr a chanlyniadau, fel sy'n ofynnol gan God Trefniadaeth Ysgolion Cymru. Yn benodol, mae'r safonau wedi'u hadlewyrchu drwy ansawdd dysgu ac addysgu, effaith asesu ac olrhain ar gynnydd disgyblion, ac i ba raddau y mae trefniadau lles, gofal ac arweinyddiaeth yn cefnogi dysgwyr i gyflawni'n gadarnhaol.

Mae'r adran ganlynol felly'n ystyried effaith debygol y cynigion ar safonau addysgol, gan gyfeirio at feysydd arolygu perthnasol Estyn lle bo'n briodol.

### C.9.vi. Addysgu a Dysgu

Byddai'r cynigion yn cefnogi gwelliant mewn addysgu a dysgu drwy ddatblygu cwricwlwm eang, cytbwys ac arloesol, gan sicrhau parhad dysgu a llwybrau datblygu clir. Byddai mwy o

gydweithio rhwng staff yn cefnogi cynllunio a darparu'r cwricwlwm yn well, gan gynnwys mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso sgiliau allweddol fel darllen, ysgrifennu estynedig, rhifedd, y Gymraeg a gallu digidol ar draws ystod eang o gyd-destunau dysgu.

Byddai mwy o gysondeb mewn dulliau addysgu a disgwyliadau drwy gynyddu cydweithrediad proffesiynol a chynllunio a rennir. Byddai gwella systemau ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion yn galluogi nodi rhai sy'n tangyflawni'n gynt a darparu ymyrraeth yn fwy prydlon, gan gefnogi gwella canlyniadau ar gyfer dysgwyr. Byddai'r cynigion hefyd yn atgyfnerthu trefniadau pontio rhwng cyfnodau, lleihau aflonyddwch ar gyfer dysgu a chefnogi parhad ar gyfer disgyblion wrth iddynt symud ymlaen drwy eu haddysg.

### C.9.vii. Effaith ar Grwpiau Dysgwyr, gan gynnwys Disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Byddai'r cynigion yn cefnogi dull sy'n fwy cydlynol a chyson o ran darpariaeth ar gyfer disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gan sicrhau parhad cefnogaeth wrth i'r dysgwyr symud rhwng y cyfnodau. Byddai gwella olrhain a threfniadau monitro yn cefnogi nodi anghenion yn gynt a galluogi ymyrraeth wedi'i dargedu lle bo'n briodol. Byddai unrhyw drefniadau ar gyfer disgyblion gydag ADY yn parhau i gael eu harwain gan ddyletswyddau statudol o dan God ADY Cymru, gyda Chynlluniau Datblygu Unigol presennol yn cael eu cynnal drwy'r cyfnod pontio.

Byddai darpariaeth gyfartal o ansawdd uchel yn cael ei gefnogi ar gyfer disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, gyda defnydd wedi'i dargedu o ymyraethau i fynd i'r afael â thangyflawni a chefnogi ymgysylltiad a phresenoldeb. Byddai'r cynigion hefyd yn cefnogi mwy o gyfleoedd ar gyfer her a chynnydd ar gyfer disgyblion mwy galluog, ochr yn ochr â dulliau cyson o wahaniaethu a chefnogi. Drwy hyrwyddo profiadau dysgu heriol sy'n berthnasol a phriodol, mae'r cynigion yn ceisio cynyddu ymgysylltiad disgyblion a thynnu rhwystrau dysgu, gan alluogi'r holl ddisgyblion i ddatblygu annibyniaeth a chymhwyso sgiliau'n effeithiol.

### C.9.viii. Lles, Gofal, Cefnogaeth ac Arweiniad

Disgwylir i'r cynigion atgyfnerthu lles, gofal, cefnogaeth ac arweiniad drwy wella trefniadau olrhain, monitro a bugeiliol. Byddai systemau gwell yn cefnogi nodi disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol yn gynnar, gan gynnwys rhai gydag ADY, a sicrhau bod ymyraethau wedi'u cydlynu ac yn effeithiol.

Byddai systemau bugeiliol cryfach ac sy'n fwy cyson yn cefnogi lles, ymgysylltiad a phresenoldeb disgyblion. Byddai ymagwedd a rennir ar gyfer diogelu, ymddygiad a datblygiad personol yn seiliedig ar werthoedd a disgwyliadau a rennir, gan gefnogi perthnasoedd cadarnhaol ac amgylchedd dysgu diogel a chynhwysol.

Ar gyfer disgyblion gydag ADY a grwpiau eraill a nodwyd, byddai'r cynigion yn gwella ansawdd, cysondeb a pharhad y gefnogaeth. Byddai ymyraethau wedi'u targedu'n cefnogi presenoldeb, lles ac ymgysylltiad, tra byddai cyfleoedd i ddatblygu sgiliau personol, cymdeithasol ac emosiynol yn cael eu hatgyfnerthu o fewn lleoliad cefnogol a chynhwysol.

### C.9.ix. Arweinyddiaeth a Gwella Ysgolion

Disgwylir i'r cynigion atgyfnerthu arweinyddiaeth a chapasiti ar gyfer gwelliant parhaus. Byddai strwythur arweinyddiaeth sy'n fwy cydlynol yn cefnogi cynllunio strategol effeithiol sy'n canolbwyntio ar wella addysgu, dysgu a lles.

Byddai prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau sy'n cael eu defnyddio'n gyson ac yn rheolaidd yn cefnogi canolbwynt clir ar wella safonau. Byddai dysgu proffesiynol a rennir yn cyfrannu at ddatblygu gweithlu medrus, a byddai defnyddio adnoddau'n effeithiol - gan gynnwys arbenigedd staff a chyfleusterau arbenigol - yn cefnogi canlyniadau gwell ar gyfer dysgwyr.

Byddai trefniadau llywodraethu'n cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol, gan sicrhau bod blaenoriaethau gwella yn cael eu nodi, eu monitro a'u datrys. Byddai arweinyddiaeth darpariaeth ADY yn cael ei atgyfnerthu drwy ddull sy'n fwy cydlynol, ochr yn ochr â gwell arbenigedd gan staff i ddiwallu anghenion dysgu amrywiol. Byddai defnydd strategol a gwerthuso grantiau, gan gynnwys Grant Datblygu Disgyblion, yn cefnogi ymyraethau sydd wedi'u targedu a her ar gyfer grwpiau dysgu a nodir.

### C.9.x. Cyflwyno'r Cwricwlwm

Disgwylir i'r cynigion wella gallu'r ysgolion dan sylw i ddarparu'r cwricwlwm llawn yn y Cyfnod Sylfaen ac ar draws yr holl gyfnodau addysgol. Trwy uno adnoddau, arbenigedd staff a chyfleusterau, byddai'r cynigion yn cefnogi gwella darpariaeth y cwricwlwm a chynnydd.

Byddai'r ysgol newydd yn darparu mynediad at gyfleusterau addysgu arbenigol, yn enwedig ar gyfer disgyblion hŷn, a gwell cyfleoedd ar gyfer dysgu mewn grwpiau bach ac wedi'u targedu, gan gynnwys ar gyfer disgyblion gydag ADY. Byddai gwell cydweithio rhwng staff ar draws y cyfnodau'n cefnogi cynllunio a chynnydd cyson, tra byddai gwell mynediad at addysg awyr agored yn cefnogi annibyniaeth disgyblion a'u datblygiad o oedran ifanc.

# RHAN D. Y CYNNIG

## D.1. Y Sefyllfa Bresennol

Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd uchod ynglŷn â'r sefyllfa fel y mae a'r ysgolion unigol yn darparu disgrifiad cynhwysfawr o'r sefyllfa bresennol ar hyn o bryd. Mae buddion i gynnal y sefyllfa bresennol a gadael i'r ysgolion barhau heb ymyrraeth.

Yn gyntaf, ac yn bwysicaf oll, ni fyddai aflonyddwch i'r disgyblion yn y pedair ysgol. Ni fyddai'n rhaid i blant symud i safle gwahanol, ni fyddai'n rhaid iddynt deithio'n bellach i gyrraedd / gadael yr ysgol, ni fyddai'n rhaid iddynt boeni am wneud ffrindiau newydd ac ni fyddai'n rhaid iddynt adael eu hamgylchedd cyfarwydd.

At hynny, byddai cadw'r holl ysgolion yn eu cymunedau'n sicrhau bod gan yr ardal leol gyfleusterau i'w defnyddio ar gyfer gweithgareddau amrywiol gan gynnwys dosbarthiadau dysgu oedolion, chwaraeon a chlybiau drama er enghraifft. Bydd yr ysgolion yn parhau i fod yn lleoliadau y gall pobl o'r un ardal gwrdd a thrafod materion lleol sy'n cefnogi cydlyniant cymdeithasol.

Nid oes angen buddsoddiad ariannol gan y Cyngor i gynnal y sefyllfa bresennol. Mae hyn yn ei dro hefyd yn golygu na fyddai'n rhaid i'r Cyngor fenthyg 15% o gostau'r prosiect na thalu am log ar unrhyw ad-daliadau a fyddai wedi'u cronni dros gyfnod o 50 mlynedd.

Ond, mae anfanteision peidio â symud ymlaen â'r cynigion. Er efallai bod yr amgylcheddau dysgu'n ddigonol, byddant yn parhau i ddirywio dros amser, ar gyfradd gyflymach. Mae Estyn wedi nodi bod cyflwr yr adeiladau yn gallu cael effaith fawr ar ddisgyblion a staff fel ei gilydd. Wrth i'r adeiladau ddirywio, gallai hyn gael effaith negyddol ar berfformiad cyffredinol a morâl pob un.

Byddai gwneud dim hefyd yn golygu y cedwir pedwar adeilad nad yw'n effeithlon o ran ynni fel rhan o'r rhwydwaith ysgolion. Ni fyddai hyn yn cyfrannu at Strategaeth Lleihau Carbon y Cyngor, ni fyddai'n lleihau'r ddibyniaeth ar ffynonellau ynni traddodiadol ac ni fyddai'n lleihau'r biliau ynni.

Mae nifer helaeth o leoedd gwag mewn ysgolion ac ar draws yr ystâd ysgolion yn arwain at ddefnydd aneffeithlon o adnoddau. Mae gan ysgolion sydd â nifer isel o ddisgyblion gostau uwch fesul disgybl na'r ysgolion sydd â lefel iach o leoedd gwag. Ni fydd peidio â chymryd y cyfle hwn i leihau'r lleoedd gwag yn galluogi'r Cyngor i ailddyrannu'r gyllideb addysg yn fwy effeithlon ar draws yr ysgolion.

Canlyniad negyddol arall yn sgil caniatáu i'r ysgolion barhau fel y maent fyddai colli buddsoddiad ariannol. Mae'r brif ffynhonnell gyllid ar gyfer y cynnig ar gyfer prosiect uchelgeisiol sy'n trawsnewid ac ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer mynd i'r afael â materion cynnal a chadw. Oni weithredir y cynnig, ni fyddai'r ysgolion hyn yn elwa o gyfleusterau gwell a byddent yn cystadlu yn erbyn pob ysgol arall i geisio datrys eu hôl-groniad o faterion cynnal a chadw wrth i'r cyllidebau gael eu lleihau a'u tynhau.

## D.2. Beth sy'n cael ei gynnig?


Cynigir:

- Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney erbyn 31 Awst 2027.
- Uno Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint.
- Byddai'r uno'n golygu:

- y byddai'r ysgolion unigol yn cau erbyn 31 Awst 2027,
- y byddai ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir 3-18 oed cyfrwng Saesneg newydd gydag enw a rhif ysgol newydd, yn agor ar 1 Medi 2027,
- y byddai'r ysgol newydd yn gweithredu dros y tri safle presennol nes bydd adeilad ysgol newydd yn cael ei adeiladu (rhagwelir Medi 2030).

## D.3. Beth fydd y cynnig yn ei ddarparu?

Bydd rhaglen o waith adeiladu cyfalaf yn hwyluso'r cynnig, wedi'i ariannu drwy Raglen Ddatblygu Gyfalaf y Cyngor. Bydd y prosiect yn adeiladu ysgol Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Cyfrwng Saesneg i blant 3-18 oed.




Bydd yr ysgol newydd yn cael ei lleoli ar y safle presennol sy'n cael ei rhannu gan Ysgol y Santes Fair a Sant Richard Gwyn, oddi ar Albert Ave, y Fflint, CH6 5JZ, gyda chapasiti cyffredinol ar gyfer 1185 o ddisgyblion llawn amser.

Bydd y nifer hwn yn cynnwys 315 o ddisgyblion cynradd llawn amser a 870 o ddisgyblion uwchradd. Hefyd, darperir 45 o leoedd blwyddyn meithrin ar gyfer disgyblion rhan amser.

At ddibenion derbyniadau ysgol, y nifer a gaiff eu derbyn fydd 45 mewn i grŵp blwyddyn Derbyn ar gyfer disgyblion llawn amser, yn ogystal â 150 o ddisgyblion llawn amser a gaiff eu derbyn i Flwyddyn 7.

Y corff llywodraethu fydd yn gyfrifol am bennu a gweinyddu'r polisi sy'n ymwneud â derbyn disgyblion i'r ysgol.

Bydd yr adeilad yn cael ei adeiladu yn unol â Chanllawiau Ardal Perthnasol / gofynion Bwletinau Adeiladu, a bydd yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Addysg (Adeiladau Ysgol) 1999.

Byddai'r ysgol newydd arfaethedig yn darparu cyfleusterau modern a adeiladwyd yn bwrpasol i gefnogi darpariaeth y Cwricwlwm i Gymru, ac i ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr.

Bydd elfen gynradd yr ysgol newydd yn cynnwys dosbarthiadau addysgu cyffredinol a fydd yn darparu gofod diogel a chyfforddus i ddisgyblion a staff i ddysgu a thyfu. Hefyd, bydd ardaloedd dynodedig ar gyfer bwyd, gwyddoniaeth a thechnoleg gwybodaeth, ynghyd â gofodau mwy fel neuaddau a stiwdios.

Byddai darpariaeth i ddysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol drwy ofodau a ddyluniwyd yn bwrpasol, er mwyn cefnogi gwaith grŵp bach, ymyrraeth a dargedwyd a chefnogaeth fugeiliol. Byddai'r adeilad yn cynnwys ardaloedd i gefnogi lles disgyblion, gan sicrhau bod cyfleusterau priodol ar gael i fodloni ystod o anghenion cymdeithasol, emosiynol a dysgu.

Bydd gan yr ardaloedd awyr agored gyfuniad o ardaloedd chwarae caled a meddal, ynghyd ag ardaloedd cynefinoedd a darpariaeth ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau penodol eraill.

Fel yr elfen gynradd, bydd gan y ddarpariaeth uwchradd ddosbarthiadau cyffredinol ond efallai y bydd ystafelloedd dosbarth dynodedig ar gyfer dylunio a thechnoleg, celf, cerddoriaeth, drama, gwyddoniaeth a thechnoleg gwybodaeth hefyd.

Bydd ardaloedd allanol yn cynnwys caeau chwaraeon, cyrtiau chwaraeon a gofodau cymdeithasol.

Bydd gan y ddwy elfen eu gofod staff a gweinyddol a fydd yn cynnwys gofodau gweithio ac ystafelloedd cyfarfod i gefnogi addysgu, cynllunio a chydweithio proffesiynol.

Hefyd, bydd cyfleusterau cegin i ddarparu gwasanaeth arlwyo ar gyfer disgyblion, ardaloedd storio, cyfleusterau lles priodol a gofod digonol er mwyn i gerbydau allu gollwng a chasglu disgyblion.

Efallai y bydd cwmpas i gynnwys cyfleusterau unigol a / neu integredig ar gyfer gofal plant blynyddoedd cynnar a defnydd cymunedol.

Bydd sawl elfen i'r dyluniad terfynol a byddant yn cael eu datblygu mewn cydweithrediad gyda budd-ddeiliaid allweddol i ddarparu adeiladau sy'n diwallu safonau gweithredu carbon sero net, a safle diogel a hygyrch, ac amgylchedd dysgu sy'n hyrwyddo lles pawb. **RHAN A.**

**TROSOLWG 4**

A.1. Cyflwyniad ... 4

A.2. Trosolwg o'r Cynnig ... 4

A.3. Gofynion Ymgynghori ... 5

A.4. Gyda phwy fyddwn yn ymgynghori? ... 6

A.5. Sut i ymateb i'r ymgynghoriad ... 9

A.6. Manylion cyswllt ... 10

A.7. Beth fydd yn digwydd nesaf? ... 10

**RHAN B. YR ACHOS DROS NEWID ... 12**

B.1. Rhesymau dros newid ... 12

B.2. Cefndir y Cynnig ... 12

B.3. Sut cyrhaeddom ni yma? ... 13

B.4. Ymgynghori gydag Ymddiriedolwyr ... 14

**RHAN C. DARPARIAETH BRESENNOL ... 15**

C.1. Trosolwg ... 15

C.2. Lleoliadau ... 15

C.3. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Saltney ... 17

C.4. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant, Yr Wyddgrug ... 18

C.5. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair, Y Fflint ... 19

C.6. Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Sant Richard Gwyn, y Fflint ... 20

C.7. Gwybodaeth Ddemograffig ... 21

C.8. Rhagolygon Disgyblion ... 25

C.9. Ansawdd y Ddarpariaeth Addysg ... 29

**RHAN D. Y CYNNIG ... 34**

D.1. Y Sefyllfa Bresennol ... 34

D.2. Beth sy'n cael ei gynnig? ... 34

D.3. Beth fydd y cynnig yn ei ddarparu? ... 35

D.4. Pa bryd gaiff y cynnig ei roi ar waith? ... 37

D.5. Cost y Cynnig ... 38

D.6. Opsiynau a Ystyriwyd ... 42
D.7. Beth fydd y cynnig a ffafrir yn ei gyflawni? ... 47
D.8. Risgiau Cysylltiedig ... 48
**RHAN E. EFFAITH DEBYGOL Y CYNNIG ... 50**
E.1. Asesiadau o Effaith ... 50
E.2. Trefniadau yn y Cyfamser ... 53
E.3. Derbyniadau ... 53
E.4. Llywodraethu ... 53
E.5. Staff ... 54
E.6. Rhagolwg ... 54
E.7. Disgyblion o Gefndiroedd Economaidd Difreintiedig ... 56
E.8. Trefniadau Pontio ... 57
E.9. Darpariaeth Feithrin a'r Blynyddoedd Cynnar ... 57
E.10. Darpariaeth Chweched Dosbarth ... 58
E.11. Yr Amgylchedd Lleol ... 58
E.12. Asesiad Teithio Dysgwyr – Llwybrau Cerdded y Fflint ... 59
E.13. Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol ... 60
E.14. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) ... 61
E.15. Tir ac Adeiladau ... 61
E.16. Ysgolion Eraill ... 62

## D.4. Pa bryd gaiff y cynnig ei roi ar waith?

Yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad a chymeradwyaeth statudol, erbyn 31 Awst 2027 bydd y pedair ysgol a effeithir gan y cynnig yn cau ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2026/27. Byddai Ysgol Sant Anthony yn cau ac ysgolion Dewi Sant, y Santes Fair a Sant Richard Gwyn yn uno ac yn ffurfio ysgol 3-18 newydd ar 1 Medi 2027. Bydd yr ysgol newydd yn agor dan un arweinyddiaeth a strwythur llywodraethu.

I gychwyn, bydd yr ysgol unedig yn defnyddio'r tri safle. Bydd manylion y trefniadau gweithredol, yn cynnwys pa grwpiau blwyddyn fydd ymhob safle, lleoliad staff a threfniadau dyddiol, yn cael eu datblygu gan y corff llywodraethu dros dro a'r pennaeth. Bydd y trefniadau hyn yn cael eu cynllunio i beidio ag amharu'n ormodol ar y plant a, ble bo'n ymarferol, i sicrhau nad yw brodyr a chwiorydd yn cael eu gwahanu.

Bydd gwaith adeiladu'r ysgol newydd yn dechrau yn amodol ar y prosesau cymeradwyo gofynnol, ond rhagwelir y bydd yn barod ar gyfer tymor yr haf/hydref 2030.

Dyma amserlen arfaethedig y cynnig, os caiff ei gymeradwyo:

| Dyddiad | Carreg Filltir |
|---|---|
| 31 Awst 2027 | Cau Ysgol Sant Anthony |
| 31 Awst 2027 | Cau Ysgol Dewi Sant, Ysgol y Santes Fair ac Ysgol Sant Richard Gwyn |

| Dyddiad | Carreg Filltir |
|---|---|
| 1 Medi 2027 | Uno ysgolion Dewi Sant, y Santes Fair a Sant Richard Gwyn i sefydlu ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir sy’n darparu addysg drwy gyfrwng y Saesneg i ddysgwyr 3-18 oed |
| I'w benderfynu (rhagwelir Medi 2030). | Agor adeilad newydd yr ysgol yn y Fflint a throsglwyddo’r holl ddisgyblion yno |

## D.5. Cost y Cynnig

Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, bydd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol. Yn ôl yr astudiaeth ddichonolrwydd a gynhaliwyd yn 2024, byddai cost adeilad ysgol 3-18 oed newydd yn oddeutu £55 miliwn. Fodd bynnag, dylid nodi mai canllaw yn unig yw’r ffigwr hwn ac y gall newid wrth i’r cam dylunio fynd rhagddo. Ers cwblhau’r astudiaeth ddichonolrwydd, mae chwyddiant yn y diwydiant adeiladu wedi dal i gynyddu ac felly mae angen ail-fodelu’r gost i adlewyrchu amodau presennol y farchnad. Rhagwelir y bydd y cynllun yn cael ei ariannu drwy gyfuniad o gyllid Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru a chyllid cyfalaf Cyngor Sir y Fflint, a rhywfaint o fenthyca darbodus. Yn seiliedig ar yr amcangyfrifon presennol, disgwylir i’r cyllid gan Lywodraeth Cymru fod yn oddeutu £46,750,000 (85% – sef y gyfradd fwyaf ffafriol sydd ar gael), gyda’r £8,250,000 sy’n weddill (15%) yn cael ei ariannu gan y Cyngor. Bydd y trefniadau cyllido terfynol yn cael eu cadarnhau drwy broses gymeradwyo Llywodraeth Cymru a gweithdrefnau llywodraethu cyfalaf y Cyngor.

Mae’r gost gyfalaf amcangyfrifedig yn seiliedig ar yr astudiaeth ddichonolrwydd sydd ar gael ar y cam hwn o’r prosiect, ond bydd yn newid wrth i’r cynllun symud i’r cam datblygu manwl. Bydd lwfansau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer chwyddiant ac amodau’r farchnad yn unol â chynllunio cyfalaf a phrosesau caffael y Cyngor.

Mae’r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cefnogi prosiectau sy’n gwella ansawdd a chyflwr adeiladau ysgol; mynd i’r afael â lleoedd gwag; sicrhau lleoedd digonol i gwrdd â’r galw; hyrwyddo cynaliadwyedd, ac sy’n darparu gwerth am arian yn yr hirdymor.

Mae’r cylch ariannu yn gofyn am sawl achos busnes er mwyn sicrhau bod y prosiect yn aros yn hyfyw wrth iddo ddatblygu o un cam i’r llall. Bydd yr achos busnes terfynol, a fydd yn cynnwys costau clir, yn cael ei gyflwyno i’r llywodraeth a Chabinet y Cyngor. Bydd angen cymeradwyaeth y llywodraeth a’r Cabinet i fwrw ymlaen i’r cam adeiladu.

Fel gyda chynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy blaenorol, wrth i’r prosiect ddatblygu mae’n bosibl y bydd grantiau eraill ar gael at gost y cynllun.

Byddai cyfraniad ariannol y Cyngor at y cynllun yn dod o fenthyca darbodus yn unol â phwerau statudol y Cyngor a Chod Darbodus CIPFA.

Mae’r costau benthyca refeniw sy’n gysylltiedig â’r cynllun, dros gyfnod o 50 mlynedd (llog a darpariaeth isafswm refeniw) fel a ganlyn ac wedi’u cynnwys yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) (yn seiliedig ar y cyfraddau llog a ragwelwyd pan osodwyd y Rhaglen Gyfalaf fis Rhagfyr 2025).

| Prosiect | Blwyddyn 1 (£miliwn) | Blwyddyn 50 (£miliwn) | Cyfartaledd dros 50 mlynedd (£miliwn) |
|---|---:|---:|---:|
| Cynnig y Ddarpariaeth Addysg Gatholig | 0.572 | 0.732 | 0.639 |

Mae’r costau hyn wedi’u hasesu ochr yn ochr ag ymrwymiadau cyfalaf ehangach y Cyngor ac fe’u hystyrir yn fforddiadwy o fewn fframwaith y SATC.

### D.5.i. Arbedion Posibl

Un o sbardunau'r cynnig yw cydraddoldeb cyllid i ddisgyblion a thrwy gau pedair ysgol ac agor ysgol 3-18 newydd, caiff y gost fesul disgybl ar gyfer darpariaeth addysg Gatholig ei rhesymoli.

Dyrennir cyllid refeniw ysgolion drwy fformiwla ariannu ysgolion lleol y Cyngor, sy'n seiliedig yn bennaf ar nifer y disgyblion ac amrywiaeth o gostau gweithredol a chostau nad ydynt yn ymwneud ag addysgu. Felly mae cyllidebau ysgolion unigol yn amrywio yn dibynnu ar nifer y disgyblion ar y gofrestr a nodweddion yr ysgol.

Yn seiliedig ar niferoedd mis Medi 2025 a'r lefelau ariannu ar y pryd hwnnw:

| Ysgol | Disgyblion cyfwerth â llawn amser | Cyfanswm Cyllideb (£, tua) | Cyllid y Disgybl (£, tua) |
|---|---|---|---|
| Ysgol Sant Anthony | 49 | £375,865 | £7,671 |
| Ysgol Dewi Sant | 62 | £448,408 | £7,232 |
| Ysgol y Santes Fair | 266 | £1,291,515 | £4,855 |
| Ysgol Sant Richard Gwyn | 739 | £4,518,309 | £6,114 |

*Mae'r niferoedd yn cynnwys dysgwyr ôl-16

Mae cynnal pedair ysgol ar wahân – dwy ohonynt gyda nifer fawr o leoedd gwag, yn golygu costau uwch fesul disgybl ac nid yw hynny'n gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael.

Mae gwaith modelu refeniw dangosol wedi'i gwblhau yn seiliedig ar Fformiwla Cyllido Ysgolion 2026/27 i ddeall goblygiadau ariannol posibl un ysgol newydd. Mae'r modelu yma wedi'i ddarparu at ddibenion ymgynghori yn unig ac yn seiliedig ar nifer o dybiaethau, yn cynnwys na fydd yr arbedion a wneir drwy ad-drefnu yn cael eu tynnu o gyllideb gyffredinol y Cyngor ar gyfer ysgolion – gan ganiatáu dosbarthiad tecach ar draws y rhwydwaith ysgolion.

Cyfrifwyd costau refeniw'r ysgol newydd arfaethedig ar sail Fformiwla Cyllido Ysgolion 2026/27.

- Mae'r cyfrifiadau ar gyfer y cynigion i ad-drefnu addysg Gatholig yn seiliedig ar y fformiwla cyllido ysgolion presennol ar gyfer y sectorau cynradd ac uwchradd. Os yw'r cynnig yn cael ei gymeradwyo byddai angen sefydlu "fformiwla ariannu 3-18" newydd. Yna, byddai angen cymeradwyo'r fformiwla newydd drwy'r fforymau a'r pwyllgorau democrataidd perthnasol
- Mae'r cynigion yn tybio y byddai holl ddisgyblion Ysgol Sant Anthony yn symud i Ysgol yr Hybarch Edward Morgan; a holl ddisgyblion Ysgol Dewi Sant ac Ysgol y Santes Fair yn symud i'r ysgol newydd
- Dim newid i Ysgol Sant Richard Gwyn

Yn seiliedig ar niferoedd disgyblion presennol

| | |
|---|---|
| Amcangyfrif o Nifer y Disgyblion Cynradd ar y Gofrestr | 328 (cyfwerth â llawn amser) |
| Amcangyfrif o'r Gyllideb a Ddyrennir ar gyfer Ysgolion Cynradd | £1,739,923 |
| Amcangyfrif o'r Dyraniad fesul Disgybl Cynradd | £5,304 |
| Amcangyfrif o Nifer y Disgyblion Uwchradd ar y Gofrestr: | 739 cyfwerth â llawn amser, yn cynnwys ôl-16 |
| Amcangyfrif o'r Gyllideb a Ddyrennir ar gyfer Ysgolion Uwchradd | £4,518,309 yn cynnwys ôl-16 |
| Amcangyfrif o'r Dyraniad fesul Disgybl Uwchradd | £6,114 yn cynnwys ôl-16 |

Yn seiliedig ar nifer y lleoedd yn yr ysgol newydd arfaethedig

| | |
|---|---|
| Amcangyfrif o Nifer y Disgyblion Cynradd ar y Gofrestr | 337.5 (cyfwerth â llawn amser) |
| Amcangyfrif o'r Gyllideb a Ddyrennir ar gyfer Ysgolion Cynradd | £1,645,095 |
| Amcangyfrif o'r Dyraniad fesul Disgybl Cynradd | £4,874 |
| Amcangyfrif o Nifer y Disgyblion Uwchradd ar y Gofrestr | 870 |
| Amcangyfrif o'r Gyllideb a Ddyrennir ar gyfer Ysgolion Uwchradd | £5,125,389 yn cynnwys ôl-16 |
| Amcangyfrif o'r Dyraniad fesul Disgybl Uwchradd | £5,891 yn cynnwys ôl-16 |

Mae'r gostyngiad fesul disgybl yn adlewyrchu'r cynnydd yn yr effeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â chael un ysgol fawr a defnyddio'r fformiwla cyllido safonol yn hytrach nag ariannu pedwar sefydliad ar wahân. Mae hyn yn ffordd decach o ddosbarthu cyllid ar draws y stad Gatholig a'r rhwydwaith ysgolion ehangach.

Bydd gwir ffigwr y cyllidebau yn cael ei bennu'n flynyddol drwy broses pennu cyllideb y Cyngor a bydd yn dibynnu ar nifer y disgyblion, y fformiwla cyllido a gymeradwywyd ar gyfer y flwyddyn berthnasol a thueddiadau demograffeg ehangach.

O ran costau staff, yn seiliedig ar yr ysgolion presennol (nifer y disgyblion ym mis medi 2025):

| Ysgol | Cyllideb Staffio (addysgu, cefnogaeth yn yr ystafell ddosbarth, gweinyddu ac ADY) |
|---|---|
| Ysgol Sant Anthony | £293,868 |
| Ysgol Dewi Sant | £356,006 |

| | |
|---|---|
| Ysgol y Santes Fair | £1,092,907 |
| Ysgol Sant Richard Gwyn | £3,883,643 yn cynnwys yr holl gyllid ôl-16 |
| Ysgol y Santes Gwenffrewi | £668,758 |
| Ysgol yr Hybarch Edward Morgan | £702,441 |

Yn seiliedig ar ddisgyblion Ysgol Dewi Sant ac Ysgol y Santes Fair yn symud i'r ysgol newydd a disgyblion Ysgol Sant Anthony yn symud i Ysgol yr Hybarch Edward Morgan

| Ysgol | Cyllideb Staffio (addysgu, cefnogaeth yn yr ystafell ddosbarth, gweinyddu ac ADY) |
|---|---|
| Ysgol 3-18 newydd | £1,330,441 |
| Ysgol y Santes Gwenffrewi | £671,759 |
| Ysgol yr Hybarch Edward Morgan | £902,260 |

Yn seiliedig ar lenwi'r ysgol newydd a disgyblion Ysgol Sant Anthony yn symud i Ysgol yr Hybarch Edward Morgan:

| Ysgol | Cyllideb Staffio (addysgu, cefnogaeth yn yr ystafell ddosbarth, gweinyddu ac ADY) |
|---|---|
| Ysgol 3-18 newydd | £1,363,109 |
| Ysgol y Santes Gwenffrewi | £671,317 |
| Ysgol yr Hybarch Edward Morgan | £901,646 |

Felly, mae'n bosibl y bydd arbedion o oddeutu £209,000 o ran costau staff (yn seiliedig ar y nifer presennol o ddisgyblion).Byddai dod â'r ddarpariaeth at ei gilydd mewn un ysgol yn lleihau'r aneffeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â lleoedd gwag ac yn galluogi defnyddio adnoddau mewn ffordd fwy cynaliadwy a theg.

### D.5.ii. Beth sy'n digwydd i Dderbyniadau Cyfalaf ac unrhyw Arbedion mewn Costau Rheolaidd?

Polisi'r Cyngor yw defnyddio derbyniadau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf yn hytrach na rhoi'r cyllid i un ochr i ad-dalu dyledion. Pob blwyddyn mae'r Cyngor yn gosod polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw sy'n nodi'r dulliau darbodus a ddefnyddir ar gyfer ad-dalu dyledion.

Mae gan y Cyngor bolisi o gyfuno derbyniadau cyfalaf i'w dyrannu i gynlluniau cyfalaf yn unol â'i nodau a'i flaenoriaethau strategol.

Ni fydd derbyniadau cyfalaf yn cael eu 'diogelu' ar gyfer cynlluniau yn yr un gwasanaeth neu ardal ddaearyddol (ac eithrio'r CRT). Mae derbyniadau cyfalaf yn cynrychioli ffynhonnell ariannu gyfyngedig yn seiliedig ar ddull cynlluniedig ar gyfer gwaredu asedau i gefnogi blaenoriaethau'r Cyngor. Byddant yn cael eu defnyddio i ariannu cynlluniau buddsoddiadau cyfalaf newydd.

Mae cynhyrchu derbyniadau cyfalaf yn dibynnu ar ein gallu i nodi asedau nad oes arnom eu hangen mwyach a'u gwerthu ar adeg briodol, sy'n amodol wedyn ar ffactorau economaidd lleol.

Mae ein hasedau hefyd yn cefnogi'r Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (SHARP) mewn ffyrdd arloesol. Rydym ni wedi nodi safleoedd nad oes arnom eu hangen mwyach, a fydd yn cael eu defnyddio i ddatblygu tai newydd. Bydd yn rhaid i'r mewnbwn hwn barhau drwy gydol oes y rhaglen. Bydd yn rhaid mapio effaith hyn ar gynhyrchu derbyniadau cyfalaf yn ofalus a sicrhau bod y Rhaglen Gyfalaf ehangach yn ei adlewyrchu.

## D.6. Opsiynau a Ystyriwyd

Ystyriodd yr Esgobaeth chwe opsiwn cyn penderfynu ar y dewis a ffefrir. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhagatal canlyniad yr ymgynghoriad na'r broses o wneud y penderfyniad statudol. Bydd opsiynau angen yn dal yn cael eu hystyried yn dibynnu ar yr adborth a dderbynnir.

| | | |
|---|---|---|
| Opsiwn 1<br>Parhau â'r sefyllfa bresennol | Opsiwn 2<br>Gwneud cyn lleied â phosibl | Opsiwn 3<br>Ysgol Gatholig 3-18 newydd yn y Fflint (2 ysgol) |
| Opsiwn 4<br>Ysgol Gatholig 3-18 newydd yn y Fflint (4 ysgol) | Opsiwn 5<br>Ysgol Gatholig 3-18 newydd yn y Fflint (6 ysgol) | Opsiwn 6<br>Ysgol Gatholig 3-18 newydd yn y Fflint (4 ysgol) a Ffederasiwn (2 ysgol) |

Mae manteision ac anfanteision pob opsiwn wedi ffurfio sail ar gyfer pob canlyniad a'r broses o nodi dewis a ffefrir.

| **Opsiwn 1 – Parhau â'r sefyllfa bresennol** | |
|---|---|
| Cadw pob ysgol Gatholig ar agor heb unrhyw ymyrraeth. | |
| **Manteision** | **Anfanteision** |
| • Dim angen buddsoddiad<br>• Bydd pob ysgol yn aros yn eu cymunedau presennol<br>• Dim amhariad ar ddisgyblion | • Nid yw'n mynd i'r afael â'r problemau cynnal a chadw<br>• Nid yw'n mynd i'r afael â'r nifer uchel o lefydd dros ben<br>• Nid yw'n darparu datrysiad hirdymor cynaliadwy |

| | |
|---|---|
| | • Nid oes unrhyw awydd i wneud dim |
| **Opsiwn wedi'i ddiystyru**<br>Ni fyddai'r opsiwn o wneud dim yn mynd i'r afael â'r lleoedd gwag yn ysgolion Catholig Sir y Fflint na'r problemau cynnal a chadw, nac ychwaith yn darparu ateb hirdymor a chynaliadwy ar gyfer ysgolion Catholig. | |

| **Opsiwn 2 – Gwneud cyn Lleied â Phosibl** | |
|---|---|
| Mynd i'r afael â'r ôl-groniad o broblemau cynnal a chadw ym mhob ysgol. | |
| **Manteision** | **Anfanteision** |
| • Angen ychydig o fuddsoddiad<br>• Mynd i'r afael â'r ôl-groniad o broblemau cynnal a chadw<br>• Bydd pob ysgol yn aros yn eu cymunedau presennol<br>• Dim amhariad ar ddisgyblion | • Nid yw'n mynd i'r afael â'r nifer uchel o lefydd dros ben<br>• Nid yw'n darparu datrysiad hirdymor cynaliadwy |
| **Opsiwn wedi'i ddiystyru**<br>Er y byddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael ag ôl-groniadau cynnal a chadw, byddai'n oedi'r broses o gael datrysiad mwy parhaol. Yn debyg iawn i opsiwn 1, ni fyddai gwneud cyn lleied â phosibl yn mynd i'r afael â'r lleoedd gwag yn ysgolion Catholig Sir y Fflint nac yn darparu ateb hirdymor a chynaliadwy ar gyfer ysgolion Catholig. | |

| **Opsiwn 3 – Ysgol Gatholig Newydd 3-18 yn y Fflint (2 ysgol)** | |
|---|---|
| Uno Ysgol y Santes Fair ac Ysgol Sant Richard Gwyn<br>Buddsoddi'n sylweddol yn safle'r Fflint (naill ai adeilad cwbl newydd neu waith ail-fodelu/ailwampio sylweddol)<br>Cadw Ysgol Sant Anthony, Ysgol Dewi Sant, Ysgol y Santes Gwenfrewi ac Ysgol yr Hybarch Edward Morgan | |
| **Manteision** | **Anfanteision** |
| • Profiad addysgu drwy'r ysgol i ddisgyblion y Fflint, sy'n hwyluso'r broses bontio<br>• Arweinyddiaeth a llywodraethu a rennir | • Bydd angen buddsoddiad ariannol sylweddol |

<table>
<tr><td>

- Datblygiad drwy'r ysgol a chwricwlwm ag arbenigedd a rennir
- Bydd pedair ysgol gynradd yn aros yn eu cymunedau presennol
- Ychydig o amhariad ar ddisgyblion

</td><td>

- Nid yw'n mynd i'r afael â'r problemau cynnal a chadw yn y pedair ysgol gynradd arall
- Nid yw'n mynd i'r afael â'r nifer uchel o lefydd dros ben yn sylweddol
- Nid yw'n darparu datrysiad hirdymor cynaliadwy

</td></tr>
<tr><td colspan="2">

**Opsiwn wedi'i ddiystyru**

Byddai opsiwn 3 yn darparu cyfleuster modern ar gyfer y Fflint ond ni fyddai'n mynd i'r afael â'r problemau yn yr ysgolion Catholig eraill. Ni fyddai'r buddsoddiad ariannol yn mynd i'r afael â lleoedd gwag yn y pedair ysgol gynradd Gatholig eraill a byddai'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw hen adeiladau sy'n dirywio yn dal yn bodoli.

</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="2">

**Opsiwn 4 – Ysgol Gatholig Newydd 3-18 yn y Fflint (4 ysgol)**

</td></tr>
<tr><td colspan="2">

Cau Ysgol Sant Anthony, Ysgol Dewi Sant, Ysgol y Santes Fair ac Ysgol Sant Richard Gwyn

Adeiladu ysgol 3-18 bwrpasol newydd yn y Fflint

Cadw Ysgol Sant Gwenfrewi ac Ysgol yr Hybarch Edward Morgan ar agor

</td></tr>
<tr><td>

**Manteision**

</td><td>

**Anfanteision**

</td></tr>
<tr><td>

- Cyfleusterau newydd modern a luniwyd ar gyfer cwricwlwm cyfoes
- Adeilad(au) di-garbon net
- Lleihau problemau cynnal a chadw a chostau'n sylweddol ar draws y sector Catholig
- Profiad addysgu drwy'r ysgol i ddisgyblion y Fflint, sy'n hwyluso'r broses bontio
- Datblygiad drwy'r ysgol a chwricwlwm ag arbenigedd a rennir
- Arweinyddiaeth a llywodraethu a rennir
- Posibilrwydd o fwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff
- Gostyngiad sylweddol mewn llefydd gwag
- Datrysiad hirdymor cynaliadwy
- Bydd dwy ysgol gynradd yn aros yn eu cymunedau presennol

</td><td>

- Bydd angen buddsoddiad ariannol sylweddol
- Nid yw'n mynd i'r afael â'r problemau cynnal a chadw yn y ddwy ysgol gynradd arall
- Gwaredu dwy ysgol o'u cymunedau lleol
- Mwy o waith teithio i ddisgyblion sydd eisoes yn mynychu neu a fyddai wedi mynychu Ysgol Sant Anthony ac Ysgol Dewi Sant i'w hysgol gynradd Gatholig agosaf
- Mae posibilrwydd o golli disgyblion sydd eisoes yn mynychu, neu a fyddai wedi mynychu, Ysgol Sant Anthony ac ysgol Dewi Sant i ysgolion eraill nad ydynt yn rhai Catholig
- Mae posibilrwydd o golli cyfleoedd cyflogaeth yn ardaloedd Saltney a'r Wyddgrug
- Colli lleoliadau ysgol hanesyddol

</td></tr>
<tr><td colspan="2">

**Y dewis a ffefrir**

</td></tr>
</table>

| |
|---|
| Hwn yw’r dewis a ffefrir sy’n sail i’r cynnig, gan y byddai’r buddsoddiad sylweddol yn darparu manteision eang. Cydnabyddir y byddai cymunedau Saltney a’r Wyddgrug yn colli eu hysgolion ond byddai’r ysgolion amgen ar gyfer y disgyblion hynny yn darparu addysg o’r un safon. |

| **Opsiwn 5 – Ysgol Gatholig Newydd 3-18 yn y Fflint (6 ysgol)** | |
|---|---|
| Cau Ysol Sant Anthony, Ysgol Dewi Sant, Ysgol y Santes Fair, Ysgol y Santes Gwenfrewi, Ysgol yr Hybarch Edward Morgan ac Ysgol Richard Gwyn<br>Adeiladu ysgol 3-18 bwrpasol newydd yn y Fflint | |
| **Manteision** | **Anfanteision** |
| • Cyfleusterau newydd modern a luniwyd ar gyfer cwricwlwm cyfoes<br>• Adeilad(au) di-garbon net<br>• Un ddarpariaeth Gatholig ganolog<br>• Gwaredu problemau cynnal a chadw a chostau’n sylweddol ar draws y sector Catholig<br>• Profiad addysgu drwy’r ysgol i ddisgyblion y Fflint, sy’n hwyluso’r broses bontio<br>• Datblygiad drwy’r ysgol a chwricwlwm ag arbenigedd a rennir<br>• Arweinyddiaeth a llywodraethu a rennir<br>• Posibilrwydd o fwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff<br>• Gostyngiad sylweddol mewn llefydd gwag<br>• Datrysiad hirdymor cynaliadwy | • Bydd angen buddsoddiad ariannol sylweddol<br>• Cael gwared ar bedair ysgol o’u cymunedau lleol<br>• Mwy o waith teithio i ddisgyblion sydd eisoes yn mynychu neu a fyddai wedi mynychu Ysgol Sant Anthony, Ysgol Dewi Sant, Ysgol Sant Gwenfrewi ac Ysgol yr Hybarch Edward Morgan i’w hysgol gynradd Gatholig agosaf<br>• Posibilrwydd o golli disgyblion sy’n mynd neu wedi bwriadu mynd i Ysgol Sant Anthony, Ysgol Dewi Sant, Ysgol Sant Gwenfrewi neu Ysgol yr Hybarch Edward Morgan i ysgolion eraill nad ydynt yn rhai Catholig<br>• Posibilrwydd o golli cyfleoedd cyflogaeth yn ardaloedd Saltney, yr Wyddgrug, Treffynnon a Shotton<br>• Colli lleoliadau ysgol hanesyddol |
| **Opsiwn wedi’i ddiystyru** | |

| |
|---|
| Er bod manteision opsiwn 5 yn debyg iawn i'r manteision a geir dan y dewis a ffefrir (opsiwn 4), byddai lleoli'r holl ddarpariaeth Gatholig mewn un lleoliad yn afresymol. Byddai hynny'n tynnu'r dewis oddi ar rieni nad oes arnynt eisiau i'w plant fynd i ysgol ddilyniannol. |

| **Opsiwn 6 – Ysgol Gatholig Newydd 3-18 yn y Fflint (4 ysgol) a Ffederasiwn (2 ysgol)** | |
|---|---|
| Cau Ysgol Sant Anthony, Ysgol Dewi Sant, Ysgol y Santes Fair ac Ysgol Sant Richard Gwyn<br>Adeiladu ysgol 3-18 bwrpasol newydd yn y Fflint<br>Ffederaleiddio Ysgol Sant Gwenfrewi ac Ysgol yr Hybarch Edward Morgan | |
| **Manteision** | **Anfanteision** |
| • Cyfleusterau newydd modern a luniwyd ar gyfer cwricwlwm cyfoes<br>• Adeilad(au) di-garbon net<br>• Lleihau problemau cynnal a chadw a chostau'n sylweddol ar draws y sector Catholig<br>• Profiad addysgu drwy'r ysgol i ddisgyblion y Fflint, sy'n hwyluso'r broses bontio<br>• Datblygiad drwy'r ysgol a chwricwlwm ag arbenigedd a rennir<br>• Arweinyddiaeth a llywodraethu a rennir<br>• Posibilrwydd o fwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff<br>• Gostyngiad sylweddol mewn llefydd gwag<br>• Datrysiad hirdymor cynaliadwy<br>• Bydd dwy ysgol gynradd yn aros yn eu cymunedau presennol | • Angen buddsoddiad ariannol sylweddol<br>• Nid yw'n mynd i'r afael â'r problemau cynnal a chadw yn y ddwy ysgol gynradd arall<br>• Cael gwared ar ddwy ysgol o'u cymunedau lleol<br>• Mwy o waith teithio i ddisgyblion sydd eisoes yn mynychu neu a fyddai wedi mynychu Ysgol Sant Anthony ac Ysgol Dewi Sant i'w hysgol gynradd Gatholig agosaf<br>• Posibilrwydd o golli disgyblion sy'n mynd neu wedi bwriadu mynd i Ysgol Sant Anthony ac Ysgol Dewi Sant i ysgolion eraill nad ydynt yn rhai Catholig<br>• Mae posibilrwydd o golli cyfleoedd cyflogaeth yn ardaloedd Saltney a'r Wyddgrug |

<table>
<tr><td>

- Bydd dwy ysgol gynradd yn cadw eu hunaniaethau unigol
- Mae Ffederasiwn yn darparu gweledigaeth, adnoddau, polisïau a threfniadau llywodraethu a rannir ar draws dwy ysgol

</td><td>

- Mae oddeutu 10 milltir rhwng y safleoedd sydd wedi'u ffederaleiddio, a all leihau unrhyw effaith gadarnhaol bosibl
- Colli lleoliadau ysgol hanesyddol

</td></tr>
<tr><td colspan="2">

**Opsiwn wedi'i ddiystyru**

Mae hwn yn debyg i opsiwn 4 ond bod ysgolion y Santes Gwenffrewi a'r Hybarch Edward Morgan yn cael eu ffederaleiddio. Er bod anfanteision i ffederaleiddio, mae'n rhesymol canolbwyntio ar sicrhau llwyddiant y cynnig heb ddarparu model amgen yn y ddwy ysgol.

</td></tr>
</table>

## D.7. Beth fydd y cynnig a ffafrir yn ei gyflawni?

Os caiff ei weithredu, bydd y cynnig yn lleihau nifer y lleoedd gwag ar draws y rhwydwaith Catholig, yn arwain at arbedion effeithlonrwydd drwy leihau costau rhedeg ac yn darparu amgylchedd dysgu newydd, modern sy'n addas i'r diben ac wedi'i ddylunio i wella cyfleoedd dysgu plant.

Fel yr amlinellir uchod, mae yna fanteisio ac anfanteision wrth weithredu'r cynnig (opsiwn 4).

I gychwyn, bydd disgyblion yr ysgol unedig yn aros ar eu safle presennol ac ond yn gweld mân newidiadau fel enw newydd ar yr ysgol a gwisg newydd. Mae hyn yn golygu na fydd llawer o darfu ar addysg y disgyblion wrth i'r gwaith adeiladu fynd rhagddo.

Mae uno'n gynnar yn dod â charfanau o ysgolion Dewi Sant, y Santes Fair a Sant Richard Gwyn at ei gilydd ac yn rhoi synnwyr o berthyn i ysgol newydd i ddisgyblion a staff cyn iddynt symud i un safle.

Bydd yr ysgol newydd yn sefydlu strwythur arwain a rheoli a rennir ar draws y tri safle, a fydd yn helpu i esmwytháu'r newid i un safle a phan fydd disgyblion yn mynd o addysg gynradd i addysg uwchradd.

Yn ogystal â'r manteision o ran pontio disgyblion, bydd y staff hefyd yn cael eu cefnogi wrth iddynt ddod at ei gilydd fel un grŵp i ddatblygu diwylliant, cynlluniau gwersi a syniadau ar gyfer yr ysgol gyfan.

Bydd y strwythur staffio newydd hefyd yn gwella cyfleoedd datblygu a dysgu drwy rannu profiadau gyda chydweithwyr.

Fel y soniwyd yn barod, mae cyflwr adeiladau yn gallu cael effaith fawr ar ddisgyblion a staff fel ei gilydd. Pan fydd yr adeilad newydd yn barod bydd yn darparu amgylchedd dysgu modern a fydd o fudd i bawb. Bydd yr amgylchedd diogel yn sylfaen i ddisgyblion a staff ffynnu a thyfu.

Drwy godi adeilad newydd sy'n cyrraedd safonau carbon sero net, bydd cyfran lai o gyllideb yr ysgol yn cael ei gwario ar filiau ynni a gwaith cynnal a chadw, gan olygu mwy o arian ar gyfer darparu'r cwricwlwm er budd y disgyblion.

Ymhellach i hynny, bydd yr agweddau carbon sero net yn lleihau ôl-troed carbon y Cyngor ac yn gwneud yr adeilad yn fwy gwydn i effaith newid yn yr hinsawdd gan gadw at ddull cynaliadwy hirdymor y Cyngor i ailwampio'r stad ysgolion.

Drwy gael gwared ar hen adeiladau bydd ôl-groniad gwaith cynnal a chadw'r Cyngor a'r Esgobaeth yn lleihau, gyda'r cyllid a arbedir yn gallu cael ei ddefnyddio ar gyfer ysgolion eraill ac i wella amgylcheddau dysgu mewn rhannau eraill o'r sir.

Bydd y cynnig hefyd yn arwain at leihau nifer y lleoedd gwag ar draws y stad Gatholig. Bydd cael gwared ar leoedd gwag yn golygu y gellir defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon ac effeithiol, a bydd y disgyblion yn cael budd o gefnogaeth sydd wedi'i thargedu'n well (o gymharu ag adnoddau yn cael eu defnyddio mewn llefydd eraill).

Mae peidio â chynnwys Ysgol y Santes Gwenffrewi a'r Hybarch Edward Morgan yn sicrhau bod y cymunedau hynny yn cadw eu darpariaeth Gatholig ac yn rhoi dewis o ysgolion i rieni Sir y Fflint os nad ydynt yn dymuno i'w plant fynd i'r ysgol newydd yn y Fflint.

Yn olaf, gellir defnyddio'r tir yn Saltney a'r Wyddgrug at ddibenion eraill gan y Cyngor a/neu'r Esgobaeth i wella'r cymunedau hynny.

Ar ôl cau eu hysgolion, bydd disgyblion Ysgol Sant Anthony ac Ysgol Dewi Sant yn ymuno â dosbarthiadau mwy o faint. Mae cymysgu gyda mwy o blant o'r un oed yn rhoi cyfle i blant ddatblygu grwpiau ffrindiau ehangach a chymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp.

Cydnabyddir hefyd bod rhywfaint o anfanteision gyda'r cynnig hwn.

Pan fydd Ysgol Sant Anthony yn cau bydd yn rhaid trosglwyddo'r disgyblion i ysgol amgen. Yr ysgol Gatholig agosaf yn y sir ar gyfer y disgyblion yw Ysgol yr Hybarch Edward Morgan yn Shotton.

Gan fod Ysgol yr Hybarch Edward Morgan dros chwe milltir i ffwrdd o Ysgol Sant Anthony bydd yn rhaid i'r disgyblion deithio'n bellach i fynd i'r ysgol (mae'n bosibl y bydd rhai disgyblion yn gymwys i gael cludiant ysgol). Mae hyn yn golygu y bydd gan ddisgyblion lai o amser i gymdeithasu cyn ac ar ôl yr ysgol, ac efallai y bydd y cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cydlynol ar ôl ysgol yn llai.

Opsiwn arall ar gyfer y rheiny sydd eisiau ysgol Gatholig yn nes at Saltney yw ysgol St Clare's yn Lache. Mae hynny'n golygu bod perygl y bydd disgyblion yn gadael y system addysg Gymreig.

Trydydd opsiwn yw rhoi'r gorau i dderbyn addysg Gatholig ac aros yn yr ardal leol a gwneud cais i ysgol gymunedol (fel Wood Memorial neu Saltney Ferry).

Mae'n bosibl y bydd sefyllfa debyg yn codi pan fydd yr ysgol newydd yn agor ar y safle yn y Fflint. Gall disgyblion Ysgol Dewi Sant symud i'r Fflint (dros 5 milltir i ffwrdd) neu benderfynu gwneud cais am le mewn ysgol heb ddynodiad Catholig yn ardal yr Wyddgrug.

Gan y bydd yn rhaid i ddisgyblion deithio'n bellach i'r ysgol, bydd y costau cludiant yn cynyddu i'r Cyngor.

Anfantais arall yw cael gwared ar ysgolion yn Saltney a'r Wyddgrug. Mae'r goblygiadau yn cynnwys colli cyfleusterau a ellir eu defnyddio gan y gymuned a cholli cyfleoedd cyflogaeth yn yr ardaloedd.

Mae cost cyflawni'r cynnig hefyd yn anfantais. Bydd gan y buddsoddiad sylweddol sydd ei angen oblygiadau ar gyfer prosiectau eraill, gan gyfyngu buddsoddiadau mewn ardaloedd eraill yn y sir.

## D.8. Risgiau Cysylltiedig

Mae'r risgiau allweddol canlynol wedi'u nodi, yn ogystal â mesurau lliniaru i leihau eu heffeithiau:

| RISG | MESURAU LLINIARU POSIBL |
|---|---|
| Gallai'r ymgynghoriad ddatgelu dull amgen a allai gynnig ateb hirdymor i ddiogelu'r sector addysg Gatholig yn Sir y Fflint. | Caiff unrhyw ddull amgen ei asesu i bennu ei hyfywedd. Unwaith y bydd hyn wedi'i sefydlu, gwneir penderfyniad naill ai i barhau â'r cynnig neu ddefnyddio'r dull amgen. |
| Fforddiadwyedd y prosiect | Adolygir fforddiadwyedd y prosiect yn barhaus. Mae'r Cyngor yn monitro costau'r prosiect yn barhaus i sicrhau eu bod o fewn y gyllideb. Bydd unrhyw gynnydd sylweddol mewn costau yn arwain at oedi'r prosiect er mwyn adolygu'r rhesymau a chanfod datrysiadau posib. |
| Ceir 85% o'r cyllid gan Lywodraeth Cymru ond ni ellir sicrhau y bydd unrhyw gais am gyllid yn llwyddiannus | Ni ellir gweithredu'r cynnig heb y cyllid hwn. |
| Darperir y 15% o'r gofyniad cyllid sy'n weddill gan y Cyngor, sydd, yn yr un modd â phob awdurdod lleol arall, dan bwysau ariannol sylweddol. | Gwnaed asesiad masnachol o gwmpas arfaethedig y prosiect a'r dyluniad amlinellol, a bernir ei fod yn fforddiadwy o fewn terfynau rhaglen gyfalaf Cyngor Sir y Fflint. |
| Cynnydd mewn costau cludo disgyblion i'r Cyngor. | Mae'n bosibl y bydd angen adolygu'r polisi cludiant ysgol. |
| Mae'n bosibl na fyddwn yn bodloni'r dyddiad cwblhau disgwyliedig. | Canllaw yn unig yw'r amserlen ddisgwyliedig ac mae'n destun camau amrywiol sy'n golygu y gallai'r cynnig gymryd mwy o amser i'w ddarparu. Fodd bynnag, gyda phrofiad blaenorol helaeth yn darparu prosiectau tebyg, gellir ystyried bod yr amserlen hon yn ymarferol. |
| Colli disgyblion i ysgolion eraill nad ydynt yn rhai Catholig yn sgil ansicrwydd y cynnig i'r dyfodol. | Bydd gan y ddarpariaeth Gatholig arfaethedig ddigon o le i ddarparu ar gyfer pob disgybl sydd ar y gofrestr gyfredol. |
| Gwrthwynebiad posibl i neu ddiffyg ymgysylltiad â'r broses newid gan fudd-ddeiliaid | Cyflwyno gwybodaeth a data clir i alluogi budd-ddeiliaid i gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori |

# RHAN E. EFFAITH DEBYGOL Y CYNNIG

Mae'r wybodaeth ganlynol yn nodi meysydd sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig a, ble bo'n angenrheidiol, yn darparu gwybodaeth i wella neu leihau'r effaith.

## E.1. Asesiadau o Effaith

Mae rhai meysydd wedi'u gwerthuso yn defnyddio asesiadau o'r effaith penodol i ddarparu mwy o fanylion. Dyma restr o'r asesiadau sy'n atodol i'r ddogfen hon a chrynodeb o'r canfyddiadau. Mae'r asesiadau llawn ar gael ar wefan y Cyngor.

### E.1.i. Asesiad o'r Effaith ar Anghenion Dysgu Ychwanegol

Yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, mae'r Cyngor yn cefnogi egwyddorion sylfaenol y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yng Nghymru, a amlinellir yng Nghod ADY Cymru.

Mae gan y Cyngor brofiad o gefnogi pontio ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY fel rhan o raglenni ad-drefnu ysgolion a byddai'n cydweithio i ddeall a chefnogi anghenion a gofynion dysgwyr y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnynt.

Os oes gan blentyn ADY, mae hawl ganddynt i gynllun statudol o'r enw Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Mae gan bobl ifanc hyd at 25 oed ag ADY hawl i gael CDU os ydynt yn aros mewn addysg. Ni fyddai unrhyw ddisgybl ag ADY yn cael ei drosglwyddo heb gynllunio priodol, a byddai CDUau yn parhau ar waith trwy gydol y cyfnod pontio.

Mae CDU sy'n symud gyda'r disgybl yn sicrhau bod disgyblion yn parhau i gael y Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol angenrheidiol er mwyn llwyddo yn yr ysgol newydd a, ble bo'n bosibl, lleihau unrhyw amhariad posibl ar ddysgu.

Ar ôl gweithredu'r cynnig bydd darpariaeth ADY disgyblion Ysgol Dewi Sant, y Santes Fair a Sant Richard Gwyn yn parhau tra byddant yn dal ar eu safleoedd presennol. Bydd disgyblion Ysgol Sant Anthony yn symud i ysgolion eraill ond bydd eu CDUau yn aros yr un fath er mwyn helpu'r broses honno o symud.

Yn debyg iawn, pan fydd yr ysgol unedig yn agor ar un safle, bydd disgyblion o safle'r Wyddgrug yn cadw eu CDUau er mwyn sicrhau bod y gofynion angenrheidiol yn eu lle ac i wneud y broses bontio mor hawdd â phosibl.

Y tu hwnt i'r cyfnod pontio, bydd yr ysgol newydd yn cynnig newid sylweddol mewn darpariaeth brif ffrwd ar gyfer plant ag ADY. Byddai cyfleusterau ADY a adeiladwyd yn bwrpasol yn cynnwys:

- Ystafelloedd addysgu ac ymyrraeth i grwpiau bychain
- Ystafelloedd tawel wedi'u dylunio i reoli emosiynau
- Mannau i reoli'r synhwyrau heb fawr o ysgogiad
- Cyfleusterau hylendid a hygyrchedd arbenigol
- Coridorau lletach, gwell acwsteg a chynlluniau llawr wedi'u dylunio'n ystyriol
- Mannau synhwyraidd a lles yn yr awyr agored
- Ardaloedd seibiant sy'n helpu cynnwys unigolion a'u hymdawelu
- Ystafelloedd dosbarth wedi'u dylunio'n well o ran acwsteg

Mae'r cyfleusterau yma'n ymateb yn uniongyrchol i'r anghenion a godwyd gan deuluoedd ac ni ellir eu darparu o fewn cyfyngiadau'r adeiladau presennol, nad oes ganddynt y cyfleusterau hynny. Y nod yw amddiffyn y gefnogaeth bresennol, yn ogystal â'i chryfhau a'i moderneiddio.

Credir y byddai gweithredu'r cynnig yn gwella'r adnoddau sydd ar gael ar safle'r Fflint yn sylweddol i ddiwallu anghenion disgyblion ag ADY.

Mae natur unrhyw gynnig sylweddol i ad-drefnu ysgol yn mynd i arwain at newid i bob plentyn. Bydd y Cyngor yn ceisio paratoi'r plentyn a'r oedolion sy'n gweithio gyda'r plentyn yn y ffordd orau bosibl i leihau effaith y newid. Bydd anghenion yn cael eu hadolygu yn unol â chyfrifoldebau statudol y Cyngor, a'u haddasu ar gyfer dysgwyr unigol.

Gyda nifer o wasanaethau rhyngberthynol arbenigol, mae Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant y Cyngor yn sicrhau bod ei ddyletswydd dan God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2001 yn cael ei gyflawni. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:

- Gwasanaeth Seicoleg Addysg
- Gwasanaeth Cwnsela Pobl Ifanc
- Gwasanaeth Synhwyraidd
- Gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol / Sipsiwn a Theithwyr
- Gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal
- Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Gwasanaeth Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu
- Gwasanaeth Cyflwr Sbectrwm Awtistig
- Gwasanaethau Ymgysylltu

I gael rhagor o wybodaeth am ein polisi ar gyfer plant ag ADY, ewch i:

https://www.flintshire.gov.uk/cy/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/Children--Young-People-with-ALN/FCC-Policy-Framework-for-Children-with-ALN.pdf

### E.1.ii. Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Bydd gan gynigion newid trefniadau ysgolion yn cael effeithiau cadarnhaol, niwtral a negyddol ar y cymunedau dan sylw.

Yn nhermau effaith gyffredinol y gweithrediad, mae hyn yn dibynnu'n sylweddol ar ba gymuned leol sy'n cael ei hystyried. Derbynnir bod y mwyafrif o'r effeithiau cadarnhaol sy'n ymwneud â'r Fflint, a bod y mwyafrif o effeithiau negyddol yn ymwneud â Saltney a'r Wyddgrug.

Ar gyfer y Fflint, byddai'r gymuned leol yn elwa ar gyfleusterau modern, carbon sero net a allai gael eu defnyddio ar gyfer digwyddiadau, gweithgareddau a mentrau cymunedol.

Serch hynny, byddai cymunedau Saltney a'r Wyddgrug yn colli ysgolion, a gallai hyn leihau mynediad lleol i wasanaethau cymunedol, effeithio ar rwydweithiau cymunedol a gwanhau hunaniaeth y gymdogaeth.

Gellid darparu cyfleusterau cymunedol yn yr ysgol, fel clybiau brecwast a gofal estynedig, yn yr ysgolion amgen arfaethedig. Gellid adleoli grwpiau eraill sy'n defnyddio cyfleusterau'r ysgol, fel Dechrau'n Deg a chlybiau gwyliau, i ysgolion amgen yn yr ardal neu adeiladau cymunedol eraill. Gellir archwilio hyn gyda grwpiau unigol i benderfynu ar yr ateb gorau sydd ar gael.

Lle bo'n bosib, mae mesurau lliniaru wedi cael eu darparu er mwyn lleihau neu dynnu effeithiau negyddol, ond nid oes modd diwallu rhai effeithiau.

### E.1.iii. Asesiad o Effaith Integredig

Mae effeithiau cadarnhaol y cynnig ar ddisgyblion, staff a'r gymuned leol yn cynnig rheswm cymhellol i'r Cyngor ystyried y cynnig fel prosiect hyfyw. Bydd disodli adeiladau'r ysgolion presennol sy'n heneiddio ag adeiladau di-garbon net cyfoes yn lleihau dibyniaeth ar danwyddau ffosil ac yn cynyddu gwytnwch y Cyngor yn erbyn hinsawdd sy'n newid yn dragwyddol.

Mae’r cynnig yn parhau â’r buddsoddiad drwy’r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i wella cyflwr adeiladau ac amgylcheddau dysgu ysgolion i blant a phobl ifanc.

Nid yw pob effaith yn gadarnhaol, a chydnabyddir y bydd effeithiau negyddol ynghlwm â’r cynnig hefyd, yn arbennig gwaredu dwy ysgol o fewn dwy gymuned, yr effaith ar ddisgyblion gydag ADY a materion cludiant sy’n gysylltiedig â cholli ysgolion lleol. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn gwneud eu gorau i liniaru, lleihau neu waredu eu heffeithiau drwy weithredu polisïau, gweithdrefnau a systemau cadarn.

Pe bai gweithredu’r cynnig yn arwain at effaith negyddol nad yw wedi’i nodi eisoes, bydd y Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i ddarparu’r gefnogaeth briodol i unigolion a/neu grwpiau yr effeithir arnynt.

### E.1.iv. Asesiad o’r Effaith ar Gludiant (Wedi'i gynnwys yn yr Asesiad Effaith Cymunedol)

Yn ôl dadansoddiad o ddata disgyblion mis Mawrth 2026:

- Mae 90.70% o’r disgyblion sy’n mynd i Ysgol Sant Anthony yn byw o fewn 2 filltir (pellter cerdded)
- Mae 50.91% o’r disgyblion sy’n mynd i Ysgol Dewi Sant yn byw o fewn 2 filltir (pellter cerdded)
- Mae 89.30% o’r disgyblion sy’n mynd i Ysgol y Santes Fair yn byw o fewn 2 filltir (pellter cerdded)
- Mae 39.22% o’r disgyblion sy’n mynd i Ysgol Sant Richard Gwyn yn byw o fewn 2 filltir (pellter cerdded)

Mae’r pellter yn berthnasol wrth asesu cymhwyster disgyblion i gael Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol am ddim dan bolisi cludiant y Cyngor (gwelwch isod).

Yn ôl y disgwyl, ar gyfer disgyblion ysgolion y Santes Fair a Sant Richard Gwyn amlygodd yr asesiad o’r effaith ar gludiant na fyddai yna unrhyw effaith sylweddol yn nhermau pellter cerdded neu amser siwrneiau. Nid yw’r costau cludiant sy’n gysylltiedig â hwyluso presenoldeb disgyblion yn yr ysgolion hyn yn newid chwaith.

Fodd bynnag, byddai disgyblion Ysgol Sant Anthony ac Ysgol Dewi Sant yn cael eu heffeithio o safbwynt cludiant.

Ar gyfer disgyblion Sant Anthony, byddai’r pellter cerdded cyfartalog i’r ysgol Gatholig agosaf yn cynyddu o 0.61 milltir i 5.95 milltir, a fyddai’n arwain at gynnydd posibl mewn amseroedd teithio cludiant ysgol – o 15 munud i hyd at 45 munud. Byddai’r cynnydd posibl yn y costau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn oddeutu £60,000 y flwyddyn i’r Cyngor.

Ar gyfer Ysgol Dewi Sant, mae’r gymhariaeth yn fwy cymhleth. Mae’r pellter cerdded presennol i’r ysgol ar gyfer y rheiny sy’n mynd i’w hysgol Gatholig agosaf yn 2.06 milltir, gyda’r amser teithio cyfartalog yn 27 munud.

Pan fydd yr ysgol wedi’u huno ag Ysgol y Santes Fair ac Ysgol Sant Richard Gwyn, tybir y bydd yr holl ddisgyblion o safle Ysgol Dewi Sant yn symud i’r ysgol newydd yn y Fflint unwaith y bydd yn barod. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu y bydd llawer llai o ddisgyblion yn mynd i’w hysgol gynradd Gatholig agosaf.

Gan fod y pellteroedd ac amseroedd teithio yn cael eu cyfrifo ar sail disgyblion yn mynd i’w hysgolion agosaf (o’r un categori, math at acti), bydd y rhan fwyaf o’r disgyblion wedi’u heithrio o’r cyfrifiad newydd. I’r disgyblion hynny lle bydd yr ysgol newydd yn y Fflint yn ysgol Gatholig agosaf iddynt, byddai’r pellter cerdded yn cynyddu i 4.08 milltir a’r amser teithio cyfartalog ar gyfer cludiant ysgol yn cael ei ragweld yn 30 munud.

Yr effaith ar gostau cludiant yw gostyngiad o £44,000 i £30,000.

Er bod arbedion posibl, mae'r Cyngor yn cydnabod y byddai cael gwared ar gludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim yn gwneud symud i'r safle newydd yn anodd i ddisgyblion Ysgol Dewi Sant. O ganlyniad, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda'r teuluoedd sy'n cael eu heffeithio i wneud trefniadau addas i helpu eu plant fynd i'r ysgol newydd.

### E.1.v. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Mae'r Cyngor yn gweithio'n barhaus i fynd i'r afael â'i amcanion CSCA ac yn eu hystyried wrth ddatblygu cynigion yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Mae hyn er mwyn lliniaru unrhyw gamau gweithredu negyddol posibl ar y Gymraeg a pharhau i hyrwyddo a chodi proffil addysg cyfrwng Cymraeg i'n holl ddysgwyr.

Gan fod y cynnig hwn yn ymwneud ag ad-drefnu addysg cyfrwng Saesneg sy'n seiliedig ar ffydd yn y sir, rydym yn cydnabod y bydd cyfraniadau llai at dargedau'r Cyngor. Fodd bynnag, gydag unrhyw ysgol newydd, mae cyfle i gynyddu'r sgiliau Cymraeg yn yr amgylchedd dysgu a'r gymuned ehangach drwy leoliadau cymunedol pwrpasol a hyrwyddo mentrau Cymraeg mewn partneriaeth â'r Esgobaeth Gatholig.

## E.2. Trefniadau yn y Cyfamser

Ar ôl uno'r ysgolion, byddai'r ysgol 3-18 oed newydd yn gweithredu ar draws y tri safle presennol hyd nes bydd yr adeilad ysgol newydd yn barod yn y Fflint. Er y bydd yr ysgol ar safleoedd gwahanol ar y cychwyn, bydd yr ysgol newydd yn gweithredu fel un ysgol gydag arweinyddiaeth, polisïau ac ethos a rennir.

Byddai trefniadau dros dro yn cael eu cynllunio'n ofalus i sicrhau parhad dysgu, lles a chefnogaeth fugeiliol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Nid yw'r Cyngor yn rhagweld y bydd y trefniadau dros dro yn cael effaith andwyol ar safonau addysg. Bydd gwaith monitro parhaus yn cael ei wneud i sicrhau bod unrhyw broblem sy'n codi yn cael ei nodi.

## E.3. Derbyniadau

Caiff y trefniadau derbyn ar gyfer yr ysgol newydd eu pennu a'u gweinyddu gan y corff llywodraethu newydd. Defnyddir y dull hwn gan gyrff llywodraethu'r pedair ysgol bresennol, ac ni fydd yn newid ar ôl ei weithredu.

Bydd digon o lefydd ar gael i ddisgyblion ar gofrestr Ysgol Sant Anthony ac Ysgol Dewi Sant i drosglwyddo i ysgol Gatholig arall, ble bynnag maent yn preswylio.

## E.4. Llywodraethu

Yn dilyn y penderfyniad i weithredu'r cynnig, byddai corff llywodraethu dros dro yn cael ei sefydlu yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Cymru a Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd 2005 (y Rheoliadau). Mae'r rhain yn nodi'r rheoliadau ar gyfer llywodraethu ysgolion a gynhelir newydd yng Nghymru ac yn pennu'r terfynau amser ar gyfer sefydlu corff llywodraethu dros dro, y nifer, a'r mathau o lywodraethwyr, math yr ysgol newydd, a sut y dylent gael eu henwebu.

Byddai'r corff llywodraethu dros dro yn gyfrifol am oruchwylio trefniadau llywodraethu'r ysgol gyfunol newydd yn arwain at ei dyddiad sefydlu (Medi 2027), a bodoli ddim hwyrach nag un tymor ar ôl y dyddiad sefydlu.

Byddai'r corff llywodraethu dros dro yn gweithio gyda'r awdurdod lleol a'r Esgobaeth i sicrhau bod trefniadau arweinyddiaeth priodol, staffio, polisïau a phrosesau gweithredu ar waith, er mwyn cefnogi'r trosglwyddiad o'r tair ysgol bresennol i un ysgol gyfunol sy'n gweithredu i ddechrau ar y safleoedd presennol.

Wedi hynny, mae proses lle mae’r Awdurdod yn cyfansoddi corff llywodraethu parhaol cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl dyddiad agor yr ysgol (Medi 2027), ond dim hwyrach na diwrnod olaf y tymor o ddyddiad sefydlu’r ysgol. Bydd y corff llywodraethu parhaol yn cefnogi’r broses bontio o weithredu ar dri safle i weithredu ar un safle yn y Fflint.  Yn ogystal, yn ystod y cam dylunio bydd y corff llywodraethu a’r pennaeth yn cyfrannu at ddyluniad y gofod a’r cyfleusterau a fydd yn cael eu codi.

## E.5. Staff

Mae gofynion staffio mewn ysgol yn seiliedig ar nifer y disgyblion yn yr ysgol. Felly, os bydd pob disgybl yn aros o fewn darpariaeth addysg Gatholig Sir y Fflint, ni fydd niferoedd staffio’n newid yn sylweddol.

Yn ystod y cam cychwynnol bydd yr ysgol unedig yn parhau i weithredu o’r tri safle presennol – y prif newid o ran staffio fydd penodi un pennaeth i arwain y tri safle.

Yn unol â’r cod, bydd corff llywodraethu dros dro yn cael ei sefydlu a fyddai’n cael ei gefnogi gan y Cyngor a’i wasanaeth Adnoddau Dynol. Byddai’r corff llywodraethu yn cynnal proses deg a thryloyw i benodi pennaeth i arwain yr ysgol unedig.

Ar ôl penodi pennaeth, bydd y corff llywodraethu dros dro, gan weithio gyda’r pennaeth, y Cyngor a’r Esgobaeth, yn penderfynu ar y strwythur staffio mwyaf priodol i gefnogi gweithrediad yr ysgol unedig. Bydd prosesau recriwtio i swyddi newydd neu ddiwygiedig yn cael eu dilyn yn ôl yr angen. Ni ragwelir y bydd llawer o newidiadau strwythurol i gychwyn gan y bydd yr ysgol yn cael ei chynnal ar draws y tri safle presennol.

Bydd unrhyw newid i’r trefniadau staffio, yn cynnwys newidiadau sy’n gysylltiedig â symud i’r cyfleuster newydd arfaethedig, yn cael ei reoli yn unol â’r trefniadau statudol a’r contractau, yn cynnwys ymgysylltu a staff ac undebau llafur.

Mi fydd y cynnig yn cael effaith ar leoliad y swyddi sydd ar gael. Byddai’r cyfleoedd i weithio yn Saltney yn diflannu pan fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith (Awst/Medi 2027) a bydd y cyfleoedd yn yr Wyddgrug ar gael dros dro tan y bydd yr ysgol newydd wedi’i chodi. Fodd bynnag, mae’n bosibl y bydd cyfleoedd ychwanegol yn y Fflint, Shotton a Threffynnon, yn dibynnu i ba ysgolion y bydd y plant yn symud iddynt.

Mae’n bosibl y bydd y cynnig hefyd yn cynyddu a gwella safon cyfleoedd datblygu proffesiynol ar gyfer staff gan y bydd rhagor o swyddi arwain ar gael i hwyluso cynnydd gyrfaol.

Drwy gydol y broses, bydd y staff sy’n cael eu heffeithio gan y newidiadau yn cael eu cefnogi drwy dimau Gwasanaethau Cyflogaeth y Cyngor.


## E.6. Rhagolwg

Mae’r ffigwr ar gyfer mis Medi 2025 yn cynnwys cyfanswm nifer y disgyblion llawn amser yn Ysgol Sant Anthony ac Ysgol yr Hybarch Edward Morgan gyda’i gilydd. Mae’r ffigyrau hyn wedi’u rhannu rhwng y ddau safle.

Mae’r ffigwr ar gyfer mis Medi 2026 yn un rhagamcanol a chyfunol ar gyfer y ddwy ysgol, sydd hefyd wedi’i rannu rhwng y ddau safle.

O fis Medi 2027 ymlaen, mae’r ffigwr wedi tynnu niferoedd Sant Anthony i ddangos y ffigwr ar gyfer Ysgol yr Hybarch Edward Morgan yn unig.

Mae’r ffigyrau ar gyfer mis Medi 2027 ymlaen yn cynnwys ffigyrau’r ddwy ysgol (oherwydd tybir pan fydd Ysgol Sant Anthony yn cau y bydd y disgyblion yn symud i Ysgol yr Hybarch Edward Morgan).





Mae ffigwr ar gyfer mis Medi 2025 yn cynnwys cyfanswm nifer y disgyblion llawn amser yn Ysgol Dewi Sant ac Ysgol y Santes Fair (a'r capasiti). Mae'r ffigyrau hyn wedi'u rhannu rhwng y ddau safle.

Mae'r ffigyrau ar gyfer mis Medi 2026 yn rhai rhagamcanol a chyfunol ar gyfer y ddwy ysgol, sydd hefyd wedi'u rhannu rhwng y ddau safle.

O fis Medi 2027 ymlaen, mae'r capasiti yn dangos nifer arfaethedig y lleoedd llawn amser sydd ar gael yn elfen gynradd yr ysgol 3-18 oed newydd yn y Fflint. Fodd bynnag, dylid nodi bod y capasiti hwn wedi'i rannu rhwng safleoedd Ysgil Dewi Sant ac Ysgol y Santes Fair.


Mae nifer y disgyblion llawn amser ar y gofrestr o fis Medi 2027 ymlaen yn dangos ffigyrau'r ddwy ysgol yn gweithredu ar y ddau safle.




Ar gyfer mis Medi 2025 mae'r cyfanswm a'r capasiti yn cyfeirio at Ysgol Sant Richard Gwyn.

Mae'r ffigwr ar gyfer mis Medi 2026 yn un rhagamcanol ar gyfer niferoedd a chapasiti Ysgol Sant Richard Gwyn.

O fis Medi 2027 ymlaen, mae'r capasiti yn dangos nifer y lleoedd arfaethedig a fydd ar gael yn elfen uwchradd yr ysgol 3-18 oed newydd yn y Fflint.




Gyda digon o leoedd ar gael yn yr ysgolion amgen, ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael unrhyw effaith sylweddol ar Ysgol y Santes Gwenffrewi, St Clare's (Lache) nac ar yr ysgol uwchradd Gatholig yn Handbridge.

## E.7. Disgyblion o Gefndiroedd Economaidd Difreintiedig

Mae'r Cyngor wedi ystyried effaith bosibl cynnig ar ddysgwyr o gefndiroedd economaidd difreintiedig, yn cynnwys y rheiny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Mae ysgolion Sant Anthony, Dewi Sant, y Santes Fair ac Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn oll yn gwasanaethu cymunedau sy'n cynnwys ardaloedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod dysgwyr o gefndiroedd economaidd difreintiedig yn gallu bod yn fwy sensitif i newidiadau yn eu hamgylchedd dysgu ac efallai angen cefnogaeth ychwanegol yn ystod cyfnodau o newid, yn enwedig pan fo cynigion yn cynnwys cau a symud ysgol.

Mae'r cynnig i sefydlu ysgol Gatholig 3-18 oed ar safle Ysgol Sant Richard Gwyn yn cynnwys y potensial i ddarparu amrywiaeth o fuddion hirdymor ar gyfer y dysgwyr. Byddai un ysgol bwrpasol yn ein galluogi i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn fwy effeithlon a chryfhau gallu'r ysgol i ddarparu cefnogaeth wedi'i thargedu, yn cynnwys drwy ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion yn fwy effeithiol ar draws pob cyfnod addysg. Disgwylir i'r ddarpariaeth o'r blynyddoedd cynnar i ôl-16, y gwelliannau i'r amgylchedd dysgu a'r mynediad at amrywiaeth ehangach o gyfleusterau ac addysgu arbennig gefnogi ymgysylltiad, cynnydd a chyrhaeddiad y disgyblion. Yn ogystal, byddai fframwaith bugeiliol a lles cyson ar draws pob grŵp oedran yn fuddiol i ddysgwyr diamddiffyn.

Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y bydd yna heriau tymor byr ynghlwm wrth y cynnig. Gall y rhain gynnwys amhariadau yn sgil cau'r ysgolion presennol a symud i leoliad newydd, newidiadau i berthnasoedd gyda staff a chyfoedion ac, i rai dygwyr, mwy o amser teithio i safle'r

ysgol newydd yn y Fflint. Heb fesurau lliniaru priodol, mae gan y ffactorau hyn y potensial i gael effaith sylweddol ar ddysgwyr o gefndiroedd economaidd difreintiedig.

I fynd i'r afael â hyn, byddai trefniadau cefnogi priodol yn cael eu rhoi ar waith i leihau'r amhariadau ac i sicrhau parhad o ran dysgu a lles disgyblion. Byddai'r rhain yn cynnwys rhaglen bontio gynhwysfawr fesul cam ar gyfer disgyblion yr holl gyfnodau allweddol, cefnogaeth fugeiliol wedi'i thargedu ar gyfer dysgwyr diamddiffyn, mynediad parhaus at brydau ysgol am ddim a hawliadau cysylltiedig, a threfniadau i fonitro presenoldeb, ymgysylltiad a chyrhaeddiad yn ofalus yn ystod ac ar ôl y cyfnod pontio. Byddai'r ysgol newydd hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o'r ffynonellau ariannu sydd ar gael i ddarparu ymyraethau wedi'u targedu, lleihau rhwystrau at ddysgu a chynnal perthynas gref gyda rhieni a gofalwyr ar draws y dalgylch ehangach,

Gan ystyried y ffactorau hyn, a gyda mesurau lliniaru priodol yn eu lle, mae'r Cyngor yn credu bod gan y cynnig y potensial i arwain at ganlyniadau addysg gwell i ddysgwyr o gefndiroedd economaidd difreintiedig yn yr hirdymor.

## E.8. Trefniadau Pontio

Ar gyfer disgyblion sy'n mynd i Ysgol Sant Anthony, ni fydd newid yn y trefniadau pontio presennol o ran y rheiny sy'n mynd i addysg uwchradd. Pan fydd yr ysgol yn cau bydd carfan Blwyddyn 6 yn rhan o'r trefniadau pontio arferol i Ysgol Sant Richard Gwyn, neu i ysgol uwchradd arall o'u dewis.

Yn y tymor byr, bydd y trefniadau pontio hefyd yn aros yr un fath i ddisgyblion Ysgol Dewis Sant ac Ysgol y Santes Fair. Er eu bod yn rhan o un ysgol unedig, byddai'r disgyblion yn dal yn dilyn y trefniadau pontio arferol i symud i'r ysgol uwchradd newydd ar safle'r Fflint, yn union fel petai Ysgol Sant Richard yn dal ar agor.

Fodd bynnag, ar ôl trosglwyddo'r holl ddisgyblion i'r adeilad newydd ar y safle bydd y trefniadau pontio yn well gan y bydd y disgyblion yn symud i addysg uwchradd ar yr un safle. Bydd y parhad hwn yn helpu dysgwyr i bontio gan y byddant wedi datblygu perthynas gryfach gyda chyfoedion ac yn gyfarwydd efo'r cyfleusterau a'r dulliau addysgu, a fydd hefyd yn lleihau'r gorbryder sydd yn aml iawn yn dod o'r newid yma.

## E.9. Darpariaeth Feithrin a'r Blynyddoedd Cynnar

Bydd darpariaeth feithrin bwrpasol ar gael fel rhan o'r ysgol newydd. Bydd yr ardal yn cynnwys ystafell ddosbarth, swyddfa'r athro, toiledau a storfeydd. Yn ogystal, efallai y bydd ystafell fach yn cael ei darparu ar gyfer gwaith grŵp a mynediad ar wahân er mwyn hwyluso trefniadau gollwng a chasglu.

Bydd gan y plant meithrin fynediad at ardaloedd awyr agored y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Bydd yr ardaloedd hyn yn cynnwys llefydd chwarae lloriau caled a meddal yn ogystal â chysgod, a fydd wedi'u dodrefnu'n briodol i annog dysgu a chwarae.

Er bod y cynnig yn lleihau nifer y llefydd meithrin sydd ar gael ar safle presennol y Fflint, bydd yn darparu digon o le i'r niferoedd a ragwelir a digon o le os oes angen ar gyfer hyd at 50% yn fwy o blant na'r niferoedd a ragwelir.

O ran y blynyddoedd cynnar, yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi adeiladu dros ddwsin o gyfleusterau gofal plant ar safleoedd ysgol. Mae hefyd wedi darparu uned bwrpasol fel rhan o ysgol gynradd Gymraeg yn y Fflint.

Mae'r cynnig hwn hefyd yn gyfle posibl i leoli cyfleuster gofal plant y blynyddoedd cynnar ar y safle os oes digon o alw amdano. Byddai unrhyw ofal plant a gwasanaeth ychwanegol yn ategu Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru gan roi mwy o gyfleoedd i rieni sy'n gweithio fanteisio ar y cynnig ac arbed arian ar gostau gofal plant. Bydd hynny yn ei dro yn golygu y bydd mwy o incwm i'w wario yn yr ardal, a dylai roi hwb i weithgarwch economaidd.

Byddai tynnu Sant Anthony a Dewi Sant yn cael effaith negyddol ar ddarpariaeth gofal estynedig yn ardaloedd Saltney a'r Wyddgrug. Mae'r ddwy ysgol yn cynnal clybiau brecwast a fyddai'n cau os yw'r cynnig yn cael ei weithredu. Dyma fyddai'r achos ar gyfer clwb ar ôl ysgol Dewi Sant hefyd.

Yn ychwanegol ar hynny, gallai darparwyd gofal plant trydydd parti weld cynnydd yn y galw, os yw disgyblion o'r ysgolion hyn yn trosglwyddo i'r ysgolion amgen arfaethedig.

Byddai disgyblion yn y Santes Fair a Sant Richard Gwyn yn elwa o gyfleusterau newydd, a fyddai'n gwella eu gweithgareddau gofal estynedig, ac o bosib, y darparu mynediad ar gyfer datblygu cyfleoedd newydd.

Efallai bydd darparwyr gofal plant yn ardal y Fflint yn gweld cynnydd mewn galw os yw disgyblion o ysgolion eraill yn symud i'r ysgol newydd..

## E.10. Darpariaeth Chweched Dosbarth

Nid yw'r cynnig yn cael gwared ar y ddarpariaeth chweched dosbarth yn gyfan gwbl nac ychwaith yn arwain at ddysgwyr yn gorfod symud i ysgolion/colegau amgen.

Byddai'r ddarpariaeth chweched dosbarth newydd yn debyg iawn i'r ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol Sant Richard Gwyn, yn cynnwys y ddarpariaeth drwy gyfrwng y Saesneg. Gan fod y cynnig yn lleihau capasiti cyffredinol addysg uwchradd Gatholig, mae nifer y lleoedd chweched dosbarth hefyd wedi'u lleihau ychydig bach.

Gan y bydd y chweched dosbarth yn cael ei gadw o fewn adeilad presennol Ysgol Sant Richard Gwyn fel rhan o'r ysgol newydd, ni fydd hynny'n effeithio ar ddysgwyr na staff o ran pellteroedd nac amseroedd teithio.

Ar ôl gorffen adeiladu'r ysgol newydd, byddai'r ddarpariaeth chweched dosbarth yn symud i'r adeilad newydd, ynghyd â gweddill yr ysgol unedig. Gan y bydd yr adeilad newydd ar yr un safle ag Ysgol Sant Richard Gwyn, ni fydd hynny'n effeithio ar bellteroedd nac amseroedd teithio staff a dysgwyr.

Felly hefyd, gan fod y ddarpariaeth chweched dosbarth arfaethedig yn debyg iawn i'r cynnig presennol, bydd effaith bosibl hynny ar sefydliadau amgen yn ddibwys a phrin yn cael unrhyw effaith o gwbl. Yn ogystal, ni fydd yn cynnig yn dylanwadu ar unrhyw bolisi cludiant yn ôl disgresiwn a ddarperir i ddysgwyr dros yr oedran ysgol gorfodol, yn enwedig gan y byddai hynny'r un fath pe na bai'r cynnig yn cael ei weithredu.

Mae gwybodaeth ynglŷn â cherdded i'r safle wedi'i chynnwys uchod dan Asesiad Teithio Dysgwyr. Fel y nodwyd, nid yw'r llwybrau cerdded yn ardal y Fflint yn cael eu hystyried yn beryglus ac ar y cyfan maent yn darparu amodau cerdded ffafriol i sicrhau bod dysgwyr yn gallu cerdded i'r ysgol yn weddol ddiogel.

Bydd y cynnig yn cynnal safon addysg y chweched dosbarth sydd ar hyn o bryd ar gael yn Ysgol Sant Richard Gwyn. Fodd bynnag, fel mae Estyn yn ei gydnabod, *"mae gwelliannau yn ansawdd adeiladau yn cael effaith fuddiol ar ansawdd yr addysgu a morâl staff ac mae hynny'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a'r perfformiad cyffredinol".*

Byddai'r cyfleusterau newydd yn caniatáu darparu cwricwlwm modern a pherthnasol a all gynyddu cyfranogiad disgyblion uwchradd (11-16 oed) a'r rheiny sy'n dewis addysg bellach yn ardal y Fflint. Byddai'r cyfleusterau hyn, ynghyd â phartneriaeth chweched dosbarth gydag Ysgol Uwchradd y Fflint, yn helpu i ddarparu mwy o gyrsiau a chyfrannu at y rhaglen 14-19.

## E.11. Yr Amgylchedd Lleol

Byddai'r cynnig yn arwain at godi un adeilad carbon sero net yn lle 4 hen adeilad sy'n aneffeithlon i'w rhedeg ac yn cynnwys ôl-groniad o waith cynnal a chadw. Drwy gyfuniad o

ddylunio clyfar, ynni adnewyddadwy a deunyddiau, bydd yr egwyddorion carbon sero net yn darparu adeilad hynod effeithlon sydd hefyd yn fuddiol i'r amgylchedd lleol.

Drwy leihau'r angen am ynni a chynhyrchu ynni ble bo'n bosibl, bydd yr ysgol yn lleihau ôl-troed carbon ysgolion y Fflint yn sylweddol ac yn lleihau'r arian sydd ei angen i redeg yr adeilad. Bydd hynny yn ei dro yn lleihau'r ddibyniaeth ar danwydd ffosil ac yn ysgafnhau'r baich ar yr isadeiledd ynni lleol.

Fodd bynnag, tra bod cael gwared ar adeiladau aneffeithlon yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd lleol cydnabyddir hefyd y bydd cludiant yn cael effaith negyddol.


Bydd disgyblion ysgolion Sant Anthony a Dewi Sant yn gorfod symud i ysgolion / safleoedd amgen fel rhan o'r cynnig. Disgwylir y bydd disgyblion Sant Anthony yn mynd i Ysgol yr Hybarch Edward Morgan dros chwe milltir i ffwrdd, lle bydd disgwyl i ddisgyblion Ysgol Dewi Sant fynd i'r ysgol newydd yn y Fflint sydd dros 5.5 milltir i ffwrdd.

Mae'r pellteroedd hyn yn golygu y bydd y disgyblion yn debygol o ddefnyddio darpariaeth Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor i gyrraedd yr ysgolion amgen. Bydd hynny'n arwain at fwy o gerbydau ar y ffordd ac felly mwy o allyriadau carbon.

Yn y dyfodol fe all fod yn bosibl lleihau'r effaith negyddol yn sgil cludo plant drwy ddefnyddio cerbydau trydan – ond mae hynny'n dibynnu ar weithredwyr trydydd parti.

## E.12. Asesiad Teithio Dysgwyr – Llwybrau Cerdded y Fflint

Yn dilyn asesiad yn defnyddio canllawiau statudol Llywodraeth Cymru, ni ystyrir bod y llwybrau cerdded yn ardal y Fflint (fel y nodir ar y cynllun atodol) yn beryglus. Mae'r cyfuniad o isadeiledd di-dor i gerddwyr, cyfleusterau croesi diogel ar ffyrdd prysurach ac amodau cerdded sy'n ffafriol yn gyffredinol yn sicrhau bod dysgwyr yn gallu teithio i'r ysgol yn weddol ddiogel.



Mae’r llwybrau a aseswyd yn cynnwys y rhwydwaith cerdded yn ardal y Fflint, sy’n cysylltu cymdogaethau preswyl ag ysgolion lleol fel y dangosir ar y cynllun ynghlwm.

Ar draws yr ardal, mae’r rhwydwaith cerdded yn cynnwys troedffyrdd parhaus ar hyd strydoedd preswyl a llwybrau dosbarthu, gyda chysylltiadau cerdded sefydledig rhwng cymunedau ac ysgolion. Pan fo dysgwyr yn dod ar draws ffyrdd prysurach, mae cyfleusterau croesi ffurfiol ar gael, sy’n darparu cyfleoedd diogel a rheoledig i groesi. Mae’n bosibl bod angen clirio llystyfiant ar rai llwybrau troed, ond nid yw hynny’n atal pobl rhag defnyddio’r llwybrau yn ddiogel. Ar y cyfan, mae’r rhwydwaith yn darparu llwybrau clir, uniongyrchol a cherddadwy drwy’r ardal.

Mae llwybrau troed yr ardal yn ddi-dor ac yn ddigonol, gan ganiatáu i gerddwyr deithio’n ddiogel heb fynd ar y briffordd. Pan fo angen croesi ffyrdd prysur mae yna gyfleusterau croesi ffurfiol i gerddwyr, sy’n darparu cyfleoedd diogel a rheoledig i bobl groesi yn unol â’r canllawiau statudol.

Mae amodau traffig ar draws yr ardal yn adlewyrchu patrymau trefol nodweddiadol. Ble mae mwy o gerbydau, mae’r isadeiledd cerdded a mannau croesi ffurfiol yn sicrhau bod dysgwyr yn gallu symud yn ddiogel ar draws y rhwydwaith. Mae adolygiad o’r data sydd ar gael ar ddamweiniau yn dangos nad oes patrymau i awgrymu bod risg uwch i ddysgwyr.

Yn seiliedig ar y meini prawf yn y canllawiau statudol:

- Mae’r llwybrau troed yn bodloni gofynion hygyrchedd
- Mae’r croesfannau rheoledig yn lleihau risgiau ar ffyrdd prysur
- Nid yw cynllun cyffyrdd yn cyflwyno peryglon annerbyniol
- Nid oes patrymau i awgrymu bod y risg yn cynyddu
- Mae’r llwybrau yn addas ar gyfer dysgwyr gyda rhywun

Yn unol â hynny, mae’r llwybrau cerdded yn ardal y Fflint yn bodloni’r gofynion o ran eu bod ar gael.

I gynnal argaeledd y llwybrau, dylai’r rhwydwaith cerdded fod yn destun archwiliadau a threfniadau cynnal a chadw parhaus, yn cynnwys clirio llystyfiant a gwiriadau rheolaidd o’r mannau croesi i sicrhau eu bod yn gwbl hygyrch.

## E.13. Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol

Mae’n ofynnol i’r Cyngor bennu a oes angen iddo ddarparu cludiant i ddisgyblion oed ysgol statudol i hwyluso presenoldeb yn ysgol ddynodedig y disgybl dan sylw. Os yw’r cludiant yn cael ei bennu’n angenrheidiol, yna mae’n rhaid darparu cludiant am ddim.

Mae’r Cyngor yn darparu cludiant am ddim i blant o oedran ysgol gorfodol (h.y. 5-16 oed) fel a ganlyn:

- Pan fydd plentyn sy'n derbyn addysg gynradd yn byw dros ddwy filltir o'u hysgol addas agosaf
- Pan fydd plentyn sy'n derbyn addysg uwchradd yn byw dros dair milltir o'u hysgol addas agosaf.

Yn ychwanegol at ei rwymedigaethau statudol, mae’r Cyngor yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion o oedran gorfodol i’r ysgol wirfoddol a gynorthwyir agosaf, lle mae cofrestru ar gyfer yr ysgol ar sail enwad, yn amodol ar y meini prawf pellter.

Darperir cludiant am ddim hefyd i fyfyrwyr dros 16 oed yn Sir y Fflint os ydyn nhw’n mynychu eu cwrs llawn amser cyntaf mewn ysgol, ar yr amod y bodlonir y maen prawf pellter o dair milltir, a bod y myfyrwyr yn mynd i'r sefydliad addysgol agosaf sy'n cynnig y cyrsiau y maen nhw’n dymuno eu hastudio.

Gellir gweld y Polisi Cludiant llawn drwy'r ddolen ganlynol:

https://www.flintshire.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Transport-Application.aspx

Ni fydd y cynnig hwn yn newid Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor. Byddai cymhwyster yn parhau i gael ei asesu fel y mae rŵan, yn seiliedig ar bellter, amser teithio, diogelwch llwybrau ac amgylchiadau dysgwyr unigol, ac yn unol â'r canllawiau statudol.

## E.14. Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)

Mae'r effaith bosibl ar y Gymraeg wedi'i hystyried yn unol â'r Cod a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Nid yw'r cynnig yn ceisio newid categori iaith yr ysgolion dan sylw. Byddai'r Gymraeg yn dal i gael ei hyrwyddo drwy addysgu, dysgu a bywyd ehangach yr ysgol yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru a threfniadau iaith presennol yr ysgolion.

Ni fydd y cynnig yn effeithio ar dargedau'r Cyngor fel y'u pennir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Mae'r Cyngor wedi buddsoddi arian sylweddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg ers 2020, gan gynnwys gwario £20 miliwn ar un ysgol gynradd newydd, rhoi estyniadau ar un arall ac adnewyddu un arall eto. Yn ogystal â hynny, mae cyllid wedi darparu nifer o leoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg i hwyluso mynediad at y Gymraeg i blant ifanc.

Rhagwelir na fyddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar y ddarpariaeth Gymraeg yn y sir gan na fydd nifer y lleoedd i ddisgyblion cyfrwng Cymraeg llawn amser yn cael eu heffeithio. Er bod y Cyngor yn cefnogi'r ymgyrch i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, mae ganddo gyfrifoldeb hefyd i ddarparu cyfleoedd o ansawdd uchel i ddisgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd yna effaith fach petai llond llaw o ddisgyblion yn dewis mynd i ysgolion dros y ffin yn Lloegr.

## E.15. Tir ac Adeiladau

Mae adeiladau ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn eiddo i Esgobaeth y ffydd ddynodedig; fodd bynnag, mae'r caeau chwarae a'r ardaloedd tu allan yn eiddo i'r Cyngor. Mae'r cynnig yn cynnwys pedair ysgol wirfoddol a gynorthwyir sy'n eiddo i'r Esgobaeth Gatholig. Byddai'r cynnig yn arwain at y canlynol:

- Trosglwyddo perchnogaeth yr holl adeiladau ar safleoedd Ysgol Sant Anthony ac Ysgol Dewi Sant i'r Cyngor
- Byddai adeiladau Ysgol y Santes Fair ac Ysgol Sant Richard Gwyn yn parhau ym mherchnogaeth yr Esgobaeth hyd nes bod yr ysgol 3-18 newydd wedi'i hadeiladu
- Ar ôl i'r gwaith adeiladu orffen, bydd perchnogaeth yr ysgol 3-18 newydd yn cael ei throsglwyddo i'r Esgobaeth
- Bydd perchnogaeth yr adeiladau presennol yn Ysgol y Santes Fair ac Ysgol Sant Richard Gwyn yn cael ei throsglwyddo i'r Cyngor er mwyn ymgymryd ag unrhyw waith ar y tiroedd a gwaith dymchwel

Mae yna bosibilrwydd y gellir defnyddio safle Ysgol Sant Anthony fel rhan o gynnig addysg ar wahân – un sy'n edrych ar godi ysgol gynradd gymunedol newydd yn y dref. Fodd bynnag, mae hynny'n destun proses ymgynghori a chymeradwyo unigol, gyda'r Esgobaeth yn gyfrifol am unrhyw benderfyniad ynghylch y tir yn eu meddiant.

Mae manylion Cynnig Addysg Saltney ar gael yn:

https://www.flintshire.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Proposal-To-Reorganise-Saltney-Ferry-C.P-And-Saltney-Wood-Memorial-C.P.aspx

Nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch defnydd safle Ysgol Dewi Sant, a byddai ar unrhyw gynnig angen cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Cabinet.

Os na fydd angen un neu'r ddau safle at ddibenion addysg, byddai'r adeiladau a'r tiroedd yn cael eu nodi'n asedau dros ben o fewn y portffolio Addysg ac Ieuenctid ac yn cael eu trosglwyddo i adran Rhaglen Gyfalaf ac Asedau'r Cyngor.

## E.16. Ysgolion Eraill

Cydnabyddir y bydd, fel gydag unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion, rhai rhieni yn mynegi ffafriaeth i ysgolion cyfagos eraill. Fel y nodwyd, mae'r cod yn gofyn i'r ymgynghoriad nodi ysgolion eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan gynnig.

Disgwylir i Ysgol yr Hybarch Edward Morgan dderbyn disgyblion o Ysgol Sant Anthony, ac felly bydd yn cael ei heffeithio gan y cynnig. Fodd bynnag, mae digon o le ar gyfer y nifer disgwyliedig o ddisgyblion sy'n debygol y symud i'r ysgol ac ni fydd angen buddsoddi llawer yn yr adeilad. Yn ogystal, rhagwelir y bydd yr ysgol yn parhau i gynnal ansawdd a safon yr addysg bresennol.

Fel y nodwyd eisoes, mae'n bosibl y byddai Ysgol y Santes Gwenffrewi, St Clare's ac Ysgol Uwchradd Gatholig Caer yn cael eu heffeithio ond mae'n annhebygol y byddai'r effaith honno'n un sylweddol. O ran nifer y disgyblion, nid yw'r Cyngor yn credu y byddai'r ysgolion hyn yn cael eu heffeithio'n sylweddol gan y cynnig gan nad yw'r cynnig yn cyfeirio disgyblion at yr ysgolion hyn ac ni ddisgwylir iddo arwain at newid sylweddol yn y ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi ystyried effaith bosibl hyn ar sail gyfatebol.

O ran ysgol St Clare's ac Ysgol Uwchradd Gatholig Caer, mae'r Cyngor yn cydnabod bod y rhain yn cael eu cynnal gan awdurdod lleol yn Lloegr ac yn gweithredu dan fframwaith derbyniadau ar wahân. O ganlyniad, nid oes gan y Cyngor wybodaeth fanwl ynghylch capasiti, derbyniadau na nifer rhagamcanol y disgyblion ar gyfer yr ysgolion hyn. Tra bod gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus a gwybodaeth leol wedi'i hystyried, er gwaethaf yr ymdrechion, ni fu'n bosibl cael yr holl ddata cymharol sydd ar gael ar gyfer ysgolion yn Sir y Fflint.

Fodd bynnag, gan ystyried agosrwydd yr ysgolion, patrymau o ran ffafriaeth rhieni a chroesi'r ffin, a'r capasiti a ddarperir yn yr ysgol newydd, ystyrir y bydd yr effaith ar yr ysgolion hyn yn fach iawn os hynny. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch trefniadau trawsffiniol a bod derbyniadau Ysgol St Clare's ac Ysgol Uwchradd Gatholig Caer yn gyfrifoldeb ar Gyngor Gorllewin Caer a Chaer a/neu'r Esgobaeth Gatholig berthnasol.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi bod y cynnig hwn yn destun ymgynghoriad ochr yn ochr â chynnig ar wahân ynghylch Ysgol Gynradd Gymunedol Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Gymunedol Wood Memorial yn Saltney. Pe bai'r cynnig hwnnw'n cael ei gymeradwyo, mae'n bosibl y bydd rhai rhieni a gofalwyr yn dewis gwneud cais am lefydd i'w plant yn yr ysgol gynradd newydd arfaethedig yn Saltney. Byddai unrhyw gais o'r fath yn cael ei ystyried yn unol â pholisi derbyniadau Cyngor Sir y Fflint, gan ystyried capasiti'r ysgol a'r niferoedd derbyn.


## E.16.i. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir yr Hybarch Edward Morgan, Shotton

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Lleoliad yr Ysgol** | | Caernarfon Close, Shotton CH5 1AR | |
| **Oedrannau** | | 3-11 | |
| **Categori Iaith** | | Cyfrwng Saesneg | |
| **Categori Ysgol** | | Gwirfoddol a Gynorthwyir | |
| **Ffydd** | | Catholig | |
| | | Derbyn – Blwyddyn 6 | Meithrin |
| **Nifer y dysgwyr ar gofrestr yr ysgol** | **Medi 2025** | 152 | 15 |
| | **Medi 2024** | 167 | 19 |
| | **Medi 2023** | 165 | 23 |
| | **Medi 2022** | 184 | 17 |
| | **Medi 2021** | 196 | 12 |
| | **Medi 2020** | 201 | 18 |
| **Lleoedd ar gael** | | 281 | 16 |
| **Lleoedd Gwag** | | 129 | |
| **Niferoedd Derbyn** | | 40 | |
| **Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion** | **Medi 2026** | 141 | 20 |
| | **Medi 2027** | 133 | 18 |
| | **Medi 2028** | 128 | 18 |
| | **Medi 2029** | 131 | 19 |
| | **Medi 2030** | 133 | 19 |
| **Categori Cyflwr yr Adeilad** | Dyddiad yr arolwg – Chwefror 2025<br>Gradd Cyflwr B – Boddhaol<br>Perfformio fel y bwriedir ond yn dangos ychydig o ddirywiad | | |
| **Addasrwydd yr Adeilad** | Dyddiad yr Arolwg – Tachwedd 2016<br>Gradd Addasrwydd B – Boddhaol<br>Perfformio fel y bwriedir ond nid yw’n cefnogi’r cwricwlwm mewn rhai meysydd | | |
| **Ôl-groniad Cynnal a Chadw** | £219,354.85 (nid yw’n cynnwys unrhyw ffi berthnasol, gwaith paratoadol na TAW) | | |
| **Cyllid** | Dyraniad cyllid 26/27 – £853,659<br>Cyllideb Staffio (addysgu, cefnogaeth yn yr ystafell ddosbarth, gweinyddu ac ADY) – £702,441<br>Cyllideb Costau’r Ysgol Fesul Disgybl 26/27 – £5,352<br>Y gyfran gyfartalog o’r gyllideb fesul disgybl cynradd yn Sir y Fflint (26/27) yw £5,360. | | |
| **Effaith Carbon** | Tystysgrif Arddangos Ynni – Gradd D<br>Defnydd Trydan – 54,244 kWh<br>Defnydd Nwy – 224,726 kWh<br>Cyfanswm defnydd ynni – 278,970 kWh<br>Cyfanswm Allyriadau Carbon – 62,605.1 kgC02e | | |
| **Niferoedd wedi’u bedyddio** | 72 o’r 163 o ddisgyblion (44.2%) wedi’u cofnodi fel rhai sydd wedi derbyn bedydd Catholig | | |

### E.3.i.a. Gwybodaeth Ddemograffig


Mae’r dadansoddiad demograffig (fel ag yr oedd ym mis Mawrth 2026) yn dangos bod Ysgol yr Hybarch Edward Morgan yn gwasanaethu ardal Shotton, gydag oddeutu 92.96% o’r disgyblion sy’n mynychu’r ysgol yn dewis eu hysgol gynradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir agosaf yn Sir y Fflint.

Map o leoliadau disgyblion sy'n mynychu Ysgol yr Hybarch Edward Morgan:




## E.3.i.b. Amcanestyniadau Disgyblion

| | GWIR | | | | | DATA DIWEDDARAF | AMCANESTYNIAD | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grŵp Blwyddyn** | **Med-20** | **Med-21** | **Med-22** | **Med-23** | **Med-24** | **Med-25** | **Med-26** | **Med-27** | **Med-28** | **Med-29** | **Med-30** | **Tuedd 5 Mlynedd** |
| **Meithrin** | 18 | 12 | 17 | 23 | 19 | 15 | 20 | 18 | 18 | 19 | 19 | 4 |
| **Derbyn** | 22 | 25 | 15 | 15 | 26 | 19 | 15 | 20 | 18 | 18 | 19 | 0 |
| **Blwyddyn 1** | 24 | 22 | 24 | 14 | 18 | 24 | 19 | 15 | 20 | 18 | 18 | -6 |
| **Blwyddyn 2** | 26 | 25 | 23 | 24 | 14 | 17 | 24 | 19 | 15 | 20 | 18 | 1 |
| **Blwyddyn 3** | 29 | 29 | 25 | 26 | 26 | 15 | 17 | 24 | 19 | 15 | 20 | 5 |
| **Blwyddyn 4** | 41 | 30 | 29 | 25 | 27 | 23 | 15 | 17 | 24 | 19 | 15 | -8 |
| **Blwyddyn 5** | 24 | 37 | 30 | 30 | 27 | 28 | 23 | 15 | 17 | 24 | 19 | -9 |
| **Blwyddyn 6** | 35 | 28 | 38 | 31 | 29 | 26 | 28 | 23 | 15 | 17 | 24 | -2 |
| **Cyfanswm** | **201** | **196** | **184** | **165** | **167** | **152** | **141** | **133** | **128** | **131** | **133** | **-19** |
| **Uchafswm Disgyblion** | 281 | 281 | 281 | 281 | 281 | 281 | 281 | 281 | 281 | 281 | 281 | 0 |
| **Lleoedd Gwag** | 80 | 85 | 97 | 116 | 114 | 129 | 140 | 148 | 153 | 150 | 148 | 19 |
| **% Lleoedd Gwag** | 28.47% | 30.25% | 34.52% | 41.28% | 40.57% | 45.91% | 49.82% | 52.67% | 54.45% | 53.38% | 52.67% | 0 |
| **Niferoedd Derbyn** | 40 | 40 | 40 | 40 | 40 | 40 | 40 | 40 | 40 | 40 | 40 | 0 |
| | Disgyblion Derbyn yn trosglwyddo i'r ysgol o ysgol gyfagos yr amcanestynnir y bydd yn derbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer a bennwyd | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| | Disgyblion Derbyn yn trosglwyddo o'r ysgol i ysgol gyfagos gan yr amcanestynnir derbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer a bennwyd | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |




Mae Tîm Derbyniadau'r Cyngor wedi cadarnhau, erbyn mis Mai 2026, bod 14 disgybl wedi cael cynnig lle yn nosbarth derbyn Ysgol yr Hybarch Edward Morgan. Mae hyn yn is na'r ffigwr ddisgwyliedig o 15.

Mae 7 o leoedd meithrin wedi'u dyrannu, sydd hefyd yn is na'r nifer a ragwelwyd (20).

Mae'r ffigyrau hyn yn nodi galw isel am leoedd yn yr ysgol.

### E.3.i.c. Ansawdd y Ddarpariaeth Addysg

Cafodd Ysgol yr Hybarch Edward Morgan ei harolygu ddiwethaf gan Estyn fis Chwefror 2025, a gellir gweld yr adroddiad isod:

https://estyn.gov.wales/app/uploads/2025/03/Inspection-report-Ven.-Edward-Morgan-R.C.-Primary-School-2025.pdf

Gwnaeth yr adroddiad yr argymhellion canlynol:

- A1. Rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion hŷn ddatblygu eu sgiliau annibynnol
- A2. Parhau i wella presenoldeb a lleihau lefelau o absenoldeb parhaus

## E.16.ii. Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Gwenffrewi, Treffynnon


Er na fydd Ysgol y Santes Gwenffrewi yn debygol o gael ei heffeithio'n sylweddol gan y cynnig, mae gwybodaeth ynglŷn â'r ysgol wedi'i chynnwys gan mai hon yw'r unig ysgol gynradd Gatholig arall yn Sir y Fflint.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Lleoliad yr Ysgol** | | Stryd Chwitffordd, Treffynnon (CH8 7NJ) | |
| **Oedrannau** | | 3-11 | |
| **Categori Iaith** | | Cyfrwng Saesneg | |
| **Categori Ysgol** | | Gwirfoddol a Gynorthwyir | |
| **Ffydd** | | Catholig | |
| | | Derbyn – Blwyddyn 6 | Meithrin |
| **Nifer y dysgwyr ar gofrestr yr ysgol** | **Medi 2025** | 139 | 22 |
| | **Medi 2024** | 150 | 22 |
| | **Medi 2023** | 155 | 22 |
| | **Medi 2022** | 158 | 18 |
| | **Medi 2021** | 160 | 20 |
| | **Medi 2020** | 147 | 26 |
| **Lleoedd ar gael** | | 187 | 19 |
| **Lleoedd Gwag** | | 48 | |
| **Niferoedd Derbyn** | | 26 | |
| **Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion** | **Medi 2026** | 139 | 20 |
| | **Medi 2027** | 140 | 20 |
| | **Medi 2028** | 134 | 21 |
| | **Medi 2029** | 139 | 21 |
| | **Medi 2030** | 142 | 21 |
| **Categori Cyflwr yr Adeilad** | Dyddiad yr Arolwg – Tachwedd 2016<br>Gradd Cyflwr B – Boddhaol<br>Perfformio fel y bwriedir ond yn dangos ychydig o ddirywiad | | |
| **Addasrwydd yr Adeilad** | Dyddiad yr Arolwg – Tachwedd 2016<br>Gradd C – Gwael<br>Cyfyngu ar ddulliau addysgu / effaith andwyol ar drefniadaeth yr ysgol | | |
| **Ôl-groniad Cynnal a Chadw** | £108,715.13 (nid yw hynny'n cynnwys unrhyw ffi berthnasol, gwaith paratoadol na TAW) | | |
| **Cyllid** | Dyraniad cyllid 26/27 – £822,636<br>Cyllideb Staffio (addysgu, cefnogaeth yn yr ystafell ddosbarth, gweinyddu ac ADY) – £668,758<br>Cyllideb Costau'r Ysgol Fesul Disgybl 26/27 – £5,484<br>Y gyfran gyfartalog o'r gyllideb fesul disgybl cynradd yn Sir y Fflint (26/27) yw £5,360. | | |
| **Effaith Carbon** | Tystysgrif Arddangos Ynni – Gradd D<br>Defnydd Trydan – 54,888 kWh<br>Defnydd Nwy – 123,400 kWh<br>Cyfanswm defnydd ynni – 178,288kWh<br>Cyfanswm Allyriadau Carbon – 41,186.2 kgC02e | | |
| **Niferoedd wedi'u bedyddio** | 56 o'r 157 o ddisgyblion (35.7%) wedi'u cofnodi fel rhai sydd wedi derbyn bedydd Catholig | | |

### E.3.i.d. Gwybodaeth Ddemograffig


Mae’r dadansoddiad demograffig (fel ag yr oedd ym mis Mawrth 2026) wedi dangos bod Ysgol y Santes Gwenffrewi yn gwasanaethu ardal Treffynnon, gydag oddeutu 99.25% o’r disgyblion sy’n mynychu’r ysgol yn dewis eu hysgol gynradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir agosaf yn Sir y Fflint.

Map o leoliadau disgyblion sy’n mynychu Ysgol y Santes Gwenffrewi:




### E.3.i.e. Amcanestyniadau Disgyblion

| | GWIR | | | | | DATA DIWEDDARAF | AMCANESTYNIAD | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp Blwyddyn | Med-20 | Med-21 | Med-22 | Med-23 | Med-24 | Med-25 | Med-26 | Med-27 | Med-28 | Med-29 | Med-30 | Tuedd 5 Mlynedd |
| Meithrin | 26 | 20 | 18 | 22 | 22 | 22 | 20 | 20 | 21 | 21 | 21 | -1 |
| Derbyn | 24 | 27 | 18 | 19 | 20 | 18 | 22 | 20 | 20 | 21 | 21 | 3 |
| Blwyddyn 1 | 20 | 25 | 27 | 19 | 17 | 20 | 18 | 22 | 20 | 20 | 21 | 1 |
| Blwyddyn 2 | 18 | 21 | 23 | 27 | 20 | 18 | 20 | 18 | 22 | 20 | 20 | 2 |
| Blwyddyn 3 | 26 | 21 | 23 | 24 | 27 | 16 | 18 | 20 | 18 | 22 | 20 | 4 |
| Blwyddyn 4 | 23 | 27 | 20 | 23 | 22 | 26 | 16 | 18 | 20 | 18 | 22 | -4 |
| Blwyddyn 5 | 18 | 21 | 25 | 18 | 25 | 19 | 26 | 16 | 18 | 20 | 18 | -1 |
| Blwyddyn 6 | 18 | 18 | 22 | 25 | 19 | 22 | 19 | 26 | 16 | 18 | 20 | -2 |
| **Cyfanswm** | **147** | **160** | **158** | **155** | **150** | **139** | **139** | **140** | **134** | **139** | **142** | **3** |
| Uchafswm Disgyblion | 187 | 187 | 187 | 187 | 187 | 187 | 187 | 187 | 187 | 187 | 187 | 0 |
| Lleoedd Gwag | 40 | 27 | 29 | 32 | 37 | 48 | 48 | 47 | 53 | 48 | 45 | -3 |
| % Lleoedd Gwag | 21.39% | 14.44% | 15.51% | 17.11% | 19.79% | 25.67% | 25.67% | 25.13% | 28.34% | 25.67% | 24.06% | -0 |
| Niferoedd Derbyn | 26 | 26 | 26 | 26 | 26 | 26 | 26 | 26 | 26 | 26 | 26 | 0 |
| | Disgyblion Derbyn yn trosglwyddo i’r ysgol o ysgol gyfagos yr amcanestynnir y bydd yn derbyn mwy o ddisgyblion na’r nifer a bennwyd | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| | Disgyblion Derbyn yn trosglwyddo o’r ysgol i ysgol gyfagos gan yr amcanestynnir derbyn mwy o ddisgyblion na’r nifer a bennwyd | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |




Mae Tîm Derbyniadau'r Cyngor wedi cadarnhau, erbyn mis Mai 2026, bod 19 o ddisgyblion wedi cael cynnig lle yn nosbarth derbyn Ysgol y Santes Gwenffrewi. Mae hyn yn is na'r ffigwr ddisgwyliedig o 22.

O ran lleoedd meithrin, mae 24 wedi'u dyrannu – sy'n uwch na'r nifer a ragwelwyd (20).

Mae'r ffigyrau hyn yn nodi galw isel, ond sefydlog am leoedd yn yr ysgol.

#### E.3.i.f. Ansawdd y Ddarpariaeth Addysg

Cynhaliwyd arolwg diwethaf Estyn yn Ysgol y Santes Gwenffrewi ym mis Mai 2024, a gellir gweld adroddiad yr arolwg isod:

https://estyn.gov.wales/system/files/2024-06/Inspection%20report%20St%20Winefride%27s%20R.C.%20School%202024.pdf

Gwnaeth yr adroddiad yr argymhellion canlynol:

- A1. Sicrhau bod gan y disgyblion gyfleoedd rheolaidd i wneud penderfyniadau ynghylch eu dysgu a bod yn greadigol.

#### E.16.iii. Ysgol Gynradd Gatholig St Clare's, Lache, Caer

Mae Ysgol Gynradd Gatholig St Clare's yn Lache (CH4 8HX) yn oddeutu 1.0 milltir (pellter cerdded) o Ysgol Sant Anthony.

Mae'n bosibl y bydd rhai teuluoedd yn ardal Saltney yn gweld ysgol St Clare's yn ddewis amgen mwy addas nag Ysgol yr Hybarch Edward Morgan, yn seiliedig ar y pellter.

Yr awdurdod lleol Seisnig perthnasol sy'n gyfrifol am dderbyniadau i ysgolion yn Lloegr, yn cynnwys St Clare's, yn unol â threfniadau'r Esgobaeth.

Nid yw'r cynnig yn newid trefniadau derbyn dros y ffin na chludiant. Penderfyniad y rhieni fydd dewis ysgol a bydd y prosesau derbyn yn cadw at y fframweithiau statudol perthnasol.

#### E.16.iv. Ysgol Uwchradd Gatholig Caer

Mae'r ysgol uwchradd Gatholig yn Handbridge (CH4 7HS) yn oddeutu 1.6 milltir (pellter cerdded) o Ysgol Sant Anthony.

Er nad yw'r cynnig yn cynnwys cael gwared ar ysgol uwchradd Gatholig yn ardal Saltney, fe all cau Ysgol Sant Anthony effeithio ar Ysgol Uwchradd Gatholig Caer.

Petai disgyblion presennol neu ddarpar ddisgyblion Ysgol Sant Anthony yn penderfynu mynd i St Clare's, yna mae'n bosibl iawn y byddai'r disgyblion hynny yn dewis mynd i Ysgol Uwchradd Gatholig Caer.

Fodd bynnag, dylid nodi, yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf (2021-2025) mai dim ond 18.56% o ddisgyblion blwyddyn 6 Ysgol Sant Anthony sy'n mynd i ysgol uwchradd yn Sir y Fflint.

Mae'r gyfradd isel sy'n mynd i ysgolion uwchradd yn Sir y Fflint yn dangos, pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu a'r disgyblion yn dewis mynd i St Clare's, y byddai'r effaith gyffredinol ar Ysgol Uwchradd Gatholig Caer yn isel oherwydd eu bod eisoes yn derbyn nifer uchel o ddisgyblion o ardal Saltney.

Yn union fel ysgol St Clare's, yr awdurdod lleol Seisnig perthnasol sy'n gyfrifol am dderbyniadau Ysgol Uwchradd Gatholig Caer, yn unol â threfniadau'r Esgobaeth.